The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# BARN GWMPASU:

## Prosiect Pŵer Carbon Isel Arfaethedig Cei Connah

**Cyfeirnod Achos: EN010166**

A fabwysiadwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) yn unol â Rheoliad 10 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017

**20 Mawrth 2024**

# TABL CYNNWYS

**1. CYFLWYNIAD ........ 1**

**2. SYLWADAU TROSFWAOL ........ 3**

2.1 Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig ........ 3
2.2 Methodoleg a Chwmpas Asesu EIA ........ 9

**3. SYLWADAU AR AGWEDDAU AMGYLCHEDDOL ........ 12**

3.1 Ansawdd Aer ........ 12
3.2 Sŵn a dirgryndod ........ 14
3.3 Traffig a thrafnidiaeth ........ 16
3.4 Ecoleg ddaearol a dyfrol ........ 18
3.5 Ecoleg forol ........ 26
3.6 Yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd ........ 32
3.7 Daeareg a chyflwr y tir ........ 35
3.8 Tirwedd ac amwynder gweledol ........ 38
3.9 Prosesau ffisegol ........ 40
3.10 Treftadaeth ddiwylliannol ........ 44
3.11 Materion economaidd-gymdeithasol, hamdden a thwristiaeth ........ 47
3.12 Y newid yn yr hinsawdd ........ 49
3.13 Iechyd dynol ........ 50
3.14 Damweiniau mawr a thrychinebau ........ 51
3.15 Deunyddiau a gwastraff ........ 53
3.16 Effeithiau cronnol a chyfunol ........ 55
3.17 Agweddau i'w hepgor ........ 56

**ATODIAD 1: CYRFF YMGYNGHORI YR YMGYNGHORWYD Â NHW'N FFURFIOL**

**ATODIAD 2: YMATEBWYR I'R YMGYNGHORIAD A CHOPÏAU O'R YMATEBION**

# 1. CYFLWYNIAD

1.1.1 Ar 08 Chwefror 2024, derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) gais am Farn Gwmpasu gan Uniper UK Limited (yr Ymgeisydd) o dan Reoliad 10 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y Rheoliadau EIA) ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel arfaethedig Cei Connah (y Datblygiad Arfaethedig). Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) o dan Reoliad 8(1)(b) y rheoliadau hynny ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol (ES) yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig a'i fod, trwy gyfrwng Rheoliad 6(2)(a), yn 'ddatblygiad EIA'.

1.1.2 Darparodd yr Ymgeisydd y wybodaeth angenrheidiol i lywio cais o dan Reoliad EIA 10(3) ar ffurf Adroddiad Cwmpasu, sydd ar gael fel a ganlyn:

**Adroddiad Cwmpasu (prif destun ac Atodiad A)**

http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010166-000035

**Adroddiad Cwmpasu (Atodiadau B i E)**

http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010166-000036

1.1.3 Y ddogfen hon yw'r Farn Gwmpasu (y Farn) a fabwysiadwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr SoS. Gwneir y Farn hon ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, sy'n adlewyrchu'r Datblygiad Arfaethedig fel y'i disgrifir ar hyn o bryd gan yr Ymgeisydd. Dylid darllen y Farn hon ar y cyd ag Adroddiad Cwmpasu'r Ymgeisydd.

1.1.4 Mae'r Arolygiaeth wedi amlinellu yn adrannau canlynol y Farn hon lle y mae wedi cytuno/ lle nad yw wedi cytuno i hepgor agweddau/ materion penodol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn rhan o'r Adroddiad Cwmpasu. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon na ddylai derbyn y Farn Gwmpasu hon atal yr Ymgeisydd rhag cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol i hepgor y cyfryw agweddau/ materion o'r ES wedi hynny, lle y darparwyd tystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r ymagwedd hon. Fodd bynnag, er mwyn dangos bod yr agweddau/ materion wedi derbyn sylw'n briodol, dylai'r ES esbonio'r rhesymeg dros eu hepgor a chyfiawnhau'r ymagwedd a ddefnyddiwyd.

1.1.5 Cyn mabwysiadu'r Farn hon, ymgynghorodd yr Arolygiaeth â'r 'cyrff ymgynghori' a restrir yn Atodiad 1 yn unol â Rheoliad EIA 10(6). Rhoddir rhestr o'r cyrff ymgynghori hynny a ymatebodd o fewn y raddfa amser statudol (ynghyd â chopïau o'u sylwadau) yn Atodiad 2. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Farn hon.

1.1.6 Mae'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi cyfres o nodiadau cyngor ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, gan gynnwys Nodyn Cyngor 7: *Asesu Effeithiau Amgylcheddol: Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, Sgrinio a Chwmpasu* (AN7). Mae AN7 a'i atodiadau'n rhoi arweiniad ar brosesau EIA yn ystod y camau cyn-ymgeisio a chyngor i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi eu ES.

1.1.7 Dylai ymgeiswyr roi sylw penodol i'r cyngor sefydlog yn AN7, ochr yn ochr â nodiadau cyngor eraill ar broses Deddf Cynllunio 2008 (PA2008), sydd ar gael yn:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/

1.1.8 Ni ddylid ystyried bod y Farn hon yn awgrymu bod yr Arolygiaeth yn cytuno â'r wybodaeth neu'r sylwadau a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gais am farn gan yr Arolygiaeth. Yn arbennig, nid yw sylwadau gan yr Arolygiaeth yn y Farn hon yn rhagfarnu unrhyw benderfyniadau diweddarach a wneir (e.e. pan gyflwynir y cais yn ffurfiol) y dylai unrhyw ddatblygiad a amlygwyd gan yr Ymgeisydd gael ei drin o reidrwydd yn rhan o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) neu Ddatblygiad Cysylltiedig neu ddatblygiad nad oes arno angen caniatâd datblygu.

# 2. SYLWADAU TROSFWAOL

## 2.1 Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig

(Adran 3 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 2.1.1 | Ffigur 1-2 | Trwch y ffin llinell goch | Byddai o gymorth i'r darllenydd pe gellir defnyddio ffin llinell goch deneuach i ddangos yr union dir sydd ei angen ac wedi'i asesu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. |
| 2.1.2 | Paragraff 2.1.21 | Cynnwys pob gwaith posibl | Mae paragraff 2.1.21 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi, '*mae'n bosibl y bydd angen mân waith uwchraddio gerllaw'r Prif Safle wrth y Fynedfa bresennol i Guddfannau Bywyd Gwyllt yn union i'r gogledd-ddwyrain (SJ279712) ac yn union i'r gogledd-orllewin (SJ267719) o'r Prif Safle ac wrth yr \ Ollyngfa Dŵr Wyneb Bresennol yn union i'r gogledd (SJ278712) o'r Prif Safle.'*<br>Dylai'r ES sicrhau y caiff yr holl waith sydd â'r potensial o fod yn ofynnol ei ddisgrifio a'i asesu, ac felly, dylid rhoi manylion y rhain yn y Disgrifiad o'r Prosiect. |
| 2.1.3 | Paragraffau 2.1.25, 2.1.32, 2.1.35 a 2.1.38 | Dimensiynau | Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn darparu lled ar gyfer yr holl waith coridor. Mae'r disgrifiadau a roddir i'r gwaith yn anghyson a dylid disgrifio paramedrau llawn yn yr ES. |
| 2.1.4 | Paragraff 3.2.6 | Eglurhad ar amseriadau | Dylai'r ES nodi paramedrau'r asesiad yn glir, a dylid esbonio ymadroddion megis 'cyfnod cyfyngedig'. |
| 2.1.5 | Paragraff 3.2.25 | Eglurhad ar waith | Dylai'r ES nodi p'un a gynigir i'r cysylltiad trydanol fod o dan y ddaear neu uwchben y ddaear, gan sicrhau bod yr holl effeithiau posibl yn |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | cael eu hasesu, a gan nodi hefyd os oes unrhyw waith y tu hwnt i'r hyn y gwneir cais amdano yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO).<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori bod yr ES yn amlinellu'n glir sut mae'r asesiad yn mynd i'r afael ag effeithiau sy'n deillio o ddatblygiad canlyniadol a gweithgarwch sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. |
| 2.1.6 | Paragraff 3.2.26 | Ardal wella ddangosol | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y gallai fod angen yr ardal hon ar gyfer cyfadeilad adeiladu dros dro cyn i'r ardal wella gael ei chreu. Dylai'r ES fod yn glir ynghylch y graddfeydd amser tebygol sy'n ofynnol a chymhwyso'r rhain i'r asesiad i sicrhau na ddibynnir ar yr ardal wella arfaethedig, fel unrhyw fesurau lliniaru, yn yr asesiad cyn ei sefydlu.<br><br>Ar ben hynny, nodir bod yr ardal wella ddangosol hon wedi'i lleoli ar safle tirlenwi hanesyddol, fel y nodwyd mewn ymatebion gan ymgyngoreion, a dylai'r Ymgeisydd ystyried unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) sy'n deillio o'r defnydd tir hanesyddol hwn. |
| 2.1.7 | Paragraff 3.3.2 | Carthu | Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod potensial ar gyfer gwaith carthu cynnal a chadw gweithredol, gan gynnwys o amgylch y mewnlif dŵr oeri. Dylai'r ES gynnwys disgrifiad o unrhyw waith carthu cynnal a chadw a gynigir, gan gynnwys ei leoliad, math a maint tebygol y gwaddod sydd i'w garthu, a'r lleoliad dyddodi arfaethedig. Dylai hyn gynnwys unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â rhyddhau halogion sy'n rhwym i waddod, afloywder, a cholli/ tarfu ar gynefinoedd. Dylid ystyried effeithiau ar agweddau eraill, megis ecoleg forol a phrosesau ffisegol. Dylid disgrifio unrhyw LSE sy'n deillio o weithgarwch o'r fath yn yr ES.<br><br>Mae paragraff 3.3.22 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi na fyddai angen unrhyw waith carthu dyfnhaol fel rhan o'r gwaith adeiladu. Os bydd hyn yn newid, mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ES roi disgrifiad |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | o unrhyw waith carthu a gynigir yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynnwys amlder, lleoliad, math a chyfaint y gwaddod a lleoliad dyddodi, ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau arwyddocaol sy'n debygol o ddigwydd o ganlyniad. |
| 2.1.8 | Paragraff 3.3.5 | Y senario waethaf | Mae paragraff 3.3.5 yr Adroddiad Cwmpasu yn trafod y gwaith Tyrbin Nwy Cylch Cyfun (CCGT) presennol. Mae'r Arolygiaeth o'r farn y dylai'r ES ystyried yn glir y prosesau a'r allyriadau a briodolir i'r gwaith CCGT presennol a sicrhau bod y paramedrau uchaf yn cael eu hasesu, gan nodi na all y dDCO ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig reoli'r rhain.<br><br>Yn ogystal, er y dywedir nad oes angen dymchwel y gwaith CCGT presennol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, dylai'r asesiad ystyried a ellid dymchwel y gwaith presennol yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, ac asesu hyn er mwyn nodi sut y bydd yn cael ei reoli i liniaru effeithiau. |
| 2.1.9 | Paragraff 3.3.6 | 'lefel platfform addas' | Dylai'r ES egluro beth a olygir gan 'lefel platfform addas', sut y penderfynir ar hyn, a beth y penderfynwyd y bydd. Bydd angen i'r asesiadau sicrhau bod lefel tir cywir wedi'i asesu. |
| 2.1.10 | Ddim yn berthnasol (Dd/B) | Dal Carbon | Dylai'r ES nodi'n glir a fyddai'r dDCO yn caniatáu i'r orsaf gynhyrchu fod yn gweithredu'n annibynnol ar yr elfennau dal carbon.<br><br>Dylai'r ES nodi pryd y byddai'r elfen dal carbon yn weithredol yn gysylltiedig â gweithrediad yr orsaf gynhyrchu.<br><br>Dylai'r ES nodi cyfradd dal carbon a dylid ystyried hyn yn yr asesiadau perthnasol. |
| 2.1.11 | Dd/B | Datgomisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn anghyson rhwng penodau agwedd yn y ffordd y cynigir asesu effeithiau datgomisiynu. Mae paragraff 3.10.3 yn nodi '*Tybir yn gyffredinol na fyddai'r effeithiau amgylcheddol sy'n* |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | *gysylltiedig â'r cam datgomisiynu yn waeth na'r rhai a brofwyd yn ystod y gwaith adeiladu a chaiff y rhain eu hasesu ar y sail hon*'.<br><br>Ond mewn rhai agweddau, e.e. ansawdd aer; mae datgomisiynu wedi'i nodi ar gyfer ei asesu (paragraff 6.5.1 yr Adroddiad Cwmpasu).<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ES gynnwys rhychwant oes y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys datgomisiynu. Dylai'r ES roi disgrifiad o'r gweithgareddau a'r gwaith (gan gynnwys yr hyd a ragwelir) sy'n debygol o fod yn ofynnol yn ystod datgomisiynu.<br><br>Lle mae'r cyfnod adeiladu wedi'i gwmpasu ar y sail y gallai LSE ddigwydd, mae hyn yn awgrymu posibilrwydd y gallai LSE ddigwydd yn ystod y cyfnod datgomisiynu.<br><br>Nid yw anhawster o ran asesu yn gyfiawnhad digonol dros hepgor materion.<br><br>Dylai'r ES fod yn glir ynghylch sut y bydd datgomisiynu'n cael ei asesu'n gyffredinol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn ogystal ag ar sail agwedd-wrth-agwedd.<br><br>Ar ben hynny, o ystyried y bwriedir datgomisiynu hyd at 30 mlynedd yn y dyfodol, dylai fod yn glir sut yr eid i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth, er enghraifft drwy ymrwymiad i gynllun rheoli amgylcheddol datgomisiynu, y gellir ei sicrhau'n amlwg drwy'r dDCO. Pe bai'r ymagwedd yn cael ei mabwysiadu y byddai'r effeithiau'n debyg i'r rhai a ddisgwylir yn ystod y gwaith adeiladu, dylai'r ES nodi sut y gallai newid yn y llinell sylfaen effeithio ar hyn a sut y byddai hyn yn cael ei ystyried. |
| 2.1.12 | Paragraffau 3.1.3 i 3.1.4 a 4.1.4 | Hyblygrwydd | Mae'r Arolygiaeth yn nodi bwriad yr Ymgeisydd i ddefnyddio dull 'Amlen Rochdale' i gynnal hyblygrwydd o fewn dyluniad y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Arolygiaeth yn disgwyl, pan wneir cais, y bydd y disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig yn ddigon manwl i gynnwys |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | dyluniad, maint, capasiti, technoleg, a lleoliadau gwahanol elfennau'r Datblygiad Arfaethedig.<br>Dylai hyn gynnwys ôl troed ac uchder y strwythurau (yn berthnasol i lefelau tir presennol ac arfaethedig), yn ogystal â gofynion defnydd tir ar gyfer holl elfennau a chyfnodau'r Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r disgrifiad gael ei ategu (yn ôl yr angen) gan ffigurau, trawstoriadau, a lluniadau y dylid cyfeirio atynt yn glir ac yn briodol. Lle ceisir hyblygrwydd, dylai'r ES nodi'n glir y paramedrau dylunio uchaf a fyddai'n berthnasol ar gyfer pob opsiwn a aseswyd a sut y defnyddiwyd y rhain i lywio asesiad digonol yn yr EIA, ac yn fwyaf nodedig, yr achos gwaethaf ar gyfer pob agwedd. |
| 2.1.13 | Paragraff 3.4.1 | Cyfnodedd | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y gallai'r Datblygiad Arfaethedig gael ei gyflawni mewn un cam neu ddau gam, yn cynnwys dau drên CCGT a gwaith dal carbon (CCP) unfath. Disgrifir llinell amser adeiladu ddangosol ar gyfer cyflawni mewn dau gam, gyda Cham 1 o bosibl yn dechrau yn 2026 ac yn cymryd tua phedair blynedd, a Cham 2 (os caiff ei symud ymlaen) o bosibl yn dechrau yn 2031 ac yn cymryd pedair blynedd. Dywedir y bydd yr ES yn rhoi rhagor o wybodaeth.<br>Dylai'r ES nodi'n glir, ar gyfer pob un o'r agweddau, senario waethaf y ddau opsiwn adeiladu allan ar gyfer pob asesiad. Dylai gynnwys asesiad o unrhyw LSE sy'n deillio o natur raddol y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys risgiau damweiniau mawr oherwydd agosrwydd gweithgarwch adeiladu at y CCGT gweithredol. Dylai'r mesurau sydd eu hangen i liniaru unrhyw LSE gael eu disgrifio'n glir mewn drafftiau o'r cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu (CEMP) a/neu gynllun rheoli amgylcheddol gweithredol (OEMP) a gyflwynir gyda'r cais. |
| 2.1.14 | Dd/B | Adnoddau naturiol | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd angen nwy naturiol a dŵr ar gyfer cyfnod gweithredol y Datblygiad Arfaethedig. Mae paragraff |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | 3.2.32 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd nwy naturiol yn parhau i gael ei fewnforio o'r cysylltiad presennol, ac mae paragraff 3.2.29 yn nodi y bydd dŵr yn cael ei dynnu o Afon Dyfrdwy. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o'r adnodd hwn y byddai ei angen, ac a fyddai'r adnodd hwn ar gael o'r ffynonellau a nodwyd. Yn ogystal, nid yw'n glir sut y byddai unrhyw weithrediad parhaus y CCGT presennol yn effeithio ar argaeledd yr adnodd.<br><br>Dylai'r ES gynnwys amcangyfrif o gyfaint tebygol y gwahanol adnoddau naturiol, gan gynnwys y rhai a nodir uchod ac unrhyw adnoddau eraill sydd eu hangen, er enghraifft fel rhan o'r broses dal carbon, a fydd yn ofynnol ar gyfer gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, sut y bydd y rhain yn cael eu cludo i'r safle, ac asesiad o unrhyw LSE sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau o'r fath.<br><br>Dylai'r Ymgeisydd ystyried a oes angen gwneud cais am ganiatadau neu drwyddedau newydd neu adnewyddu caniatadau neu drwyddedau sy'n bodoli, a dylai'r ES roi sylwebaeth ar y rhain. |

## 2.2 Methodoleg a Chwmpas Asesu EIA

(Adran 4 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau’r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 2.2.1 | Paragraff 1.1.4 | Cwmpas yr asesiad | Mae’r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod y Datblygiad Arfaethedig ‘*yn disgwyl defnyddio rhwydweithiau trafnidiaeth a storio sy’n eiddo i Liverpool Bay CCS Limited ac sy’n cael eu gweithredu ganddynt, sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o brosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet*’. Dyma un enghraifft, mae gwaith a rennir ac sy’n gorgyffwrdd â phrosiectau eraill yn cael eu trafod mewn man arall yn yr Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Dylai’r ES ddisgrifio’r berthynas rhwng y Datblygiad Arfaethedig a phrosiectau cysylltiedig yn glir. Dylai hyn gynnwys i ba raddau y mae’r Datblygiad Arfaethedig yn dibynnu ar gyflawni’r prosiectau eraill hynny a’u llinellau amser datblygu a’u llwybrau cydsynio disgwyliedig, gan esbonio sut y bydd y rhain yn cael eu cydlynu. Dylai’r asesiad fynd i’r afael â’r posibilrwydd y gallai’r prosiectau cysylltiedig arwain at LSE. Mae’r Arolygiaeth yn cynghori bod yr ES yn amlinellu’n glir ac yn fanwl, sut mae’r asesiad yn mynd i’r afael ag effeithiau sy’n deillio o ddatblygiad canlyniadol a gweithgarwch sy’n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Dylai’r ES esbonio a chyfiawnhau ffiniau a chyfyngiadau’r asesiad yn glir a, chan nodi y gallai ansicrwydd barhau, unrhyw dybiaethau rhesymol a ddefnyddiwyd. Dylai’r asesiad fynd i’r afael â’r senario achos gwaethaf (a allai fod yn wahanol ar gyfer agweddau gwahanol). |
| 2.2.2 | Dd/B | Amodau sylfaenol | Dylai’r ES gynnwys prawf sensitifrwydd ar gyfer unrhyw ddata arolygon a gasglwyd o ddatblygiadau blaenorol, yn enwedig DCO Piblinell Carbon Deuocsid HyNet, sydd â ffin sy’n gorgyffwrdd â’r Datblygiad Arfaethedig, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn ddibynadwy. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 2.2.3 | Dd/B | Mesurau lliniaru | Dylai'r ES ystyried y posibilrwydd y gallai mesurau lliniaru effeithio ar agweddau amgylcheddol eraill. Dylid ystyried pryd yn ystod y cyfnod asesu y bydd y mesur lliniaru yn ei le. Er enghraifft, nodir bod paragraff 9.6.2 yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan y gellid defnyddio sgrinio fel mesur lliniaru ar gyfer tarfu gweledol ar adar. Dylid asesu unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol sy'n deillio o bresenoldeb mesurau sgrinio fel rhai perthnasol hefyd, e.e. ar gyfer derbynyddion tirwedd a gweledol. |
| 2.2.4 | Amrywiol | Mesurau lliniaru ychwanegol | Mae nifer o benodau agwedd yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi y byddai mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol yn cael eu darparu lle "*mae'n rhesymol ymarferol*".<br><br>Dylai'r ES ddisgrifio sut y bwriedir lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol. Dylid nodi yn yr ES unrhyw fesurau lliniaru a gynigir; dylai'r disgrifiad fod yn ddigon manwl i ddangos sut y bydd effeithiau arwyddocaol yn cael eu hosgoi neu eu lleihau. Lle cynigir rhagor o fanylion mewn cynlluniau rheoli, dylid cyflwyno fersiynau amlinellol a dylai'r ES ddangos yn glir sut y bydd gweithrediad mesurau o'r fath yn cael ei sicrhau trwy'r dDCO. Lle mae effeithiau niweidiol arwyddocaol yn parhau ar ôl unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol arfaethedig, neu os nad oes mesurau lliniaru ychwanegol ar gael, dylai'r ES nodi a disgrifio unrhyw fesurau cydbwyso arfaethedig a chadarnhau sut y byddai'r rhain yn cael eu sicrhau (lle bo hynny'n briodol). Dylid ymgynghori â chyrff ymgynghori perthnasol ar unrhyw fesurau a nodir. |
| 2.2.5 | Adran 22.3 | Trawsffiniol | Mae'r Arolygiaeth, ar ran yr SoS, wedi ystyried y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n dod i'r casgliad ei fod yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn un o Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar ei ben ei hun ac ar y cyd. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Arolygiaeth wedi amlygu ac ystyried effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys ystyried llwybrau |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | posibl a graddau, maint, tebygolrwydd, hyd, amlder a gwrthdroadwyedd yr effeithiau.<br><br>Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y tebygolrwydd o effeithiau trawsffiniol o'r Datblygiad Arfaethedig mor isel fel nad oes angen cyhoeddi gwybodaeth sgrinio drawsffiniol fanwl. Fodd bynnag, bydd y safbwynt hwn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd neu sylweddol wahanol a ddaw i'r amlwg a allai newid y penderfyniad hwnnw.<br><br>Sylwer: Mae dyletswydd yr SoS o dan Reoliad 32 Rheoliadau EIA 2017 yn parhau drwy gydol y broses ymgeisio.<br><br>Mae'r Arolygiaeth wedi sgrinio materion trawsffiniol ar sail yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn yr Atodiad i'w Nodyn Cyngor Deuddeg, sydd ar gael ar ein gwefan yn http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/ |

# 3. SYLWADAU AR AGWEDDAU AMGYLCHEDDOL

## 3.1 Ansawdd Aer

(Adran 6 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.1.1 | Tabl 6-1 | Traffig ffyrdd gweithredol (iechyd dynol a derbynyddion ecolegol perthnasol o fewn y pellter sgrinio) | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod nifer y teithiau cerbydau a ragwelir ar gyfer y 66 o staff y bydd eu hangen ar y safle yn ystod gweithredu a 14 o deithiau Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV) y diwrnod yn annhebygol o arwain at effaith arwyddocaol ar ansawdd aer. Fodd bynnag, nodir y bydd hyn yn cynyddu i 230 o Draffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol (AADT) yn ystod blynyddoedd o waith cynnal a chadw.<br><br>Mae'r Arolygiaeth, gan nodi ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chydnabod bod posibilrwydd o effeithiau cyfunol/ cronnol ar linell sylfaen y dyfodol o ganlyniad i Ddatblygiadau Arfaethedig eraill o fewn cyffiniau'r safle, yn barnu bod angen rhagor o wybodaeth ar yr effeithiau tebygol cyn y gellir hepgor y mater hwn o ran ansawdd aer. Anogir yr Ymgeisydd i drafod hyn a cheisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.1.2 | Paragraff 6.4.4 | Ardal Astudio | Dylai'r ES roi cyfiawnhad dros beidio â dilyn y pellter a awgrymir o 350m o ffin y safle a hyd at 500m o fynedfa'r safle ar gyfer derbynyddion dynol, a 500m o fynedfa'r safle ar gyfer derbynyddion ecolegol. Mae'r pellteroedd hyn wedi'u nodi yng Nghanllawiau'r Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM) ar asesu llwch yn sgil dymchwel ac adeiladu 2014. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Dylai'r ES sicrhau bod unrhyw bellteroedd a ddefnyddir wedi'u llywio gan effeithiau arwyddocaol posibl ar dderbynyddion sensitif ac nid rhyw ffigur mympwyol a bennir i'r asesiad. |
| 3.1.3 | Paragraffau 6.4.8 – 6.4.10 | Llinell sylfaen | Mae paragraffau 6.4.8 – 6.4.10 yr Adroddiad Cwmpasu yn amlinellu'r data cefndir i'w defnyddio yn yr asesiad. Mae'r adran hon hefyd yn cynnig arolwg dros gyfnod o dri mis gan ddefnyddio tiwbiau tryledu i sefydlu'r lefelau nitrogen deuocsid yn yr ardal yn union o amgylch y safle. Fel pob gwybodaeth sylfaenol, dylai'r ES gyfiawnhau sut mae hyn yn gynrychioliadol. Nid yw'n glir sut y bydd y cyfnod arolygu hwn o dri mis yn cael ei ddefnyddio i lywio rhagamcanion. Felly, dylai'r dull hwn gael ei gyfiawnhau'n llawn yn yr ES. |
| 3.1.4 | Paragraff 6.4.11 | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Dywedodd CNC yn ei sylwadau nad yw pob SoDdGA wedi'u nodi o fewn yr ardal astudio 15km. Dylai'r Ymgeisydd geisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol ar safleoedd dynodedig i'w cynnwys yn yr asesiad.<br><br>Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod pob safle a rhywogaeth yn cael eu cynnwys yn yr asesiad ecolegol a'u rhestru mewn tabl megis Tabl 9-3 yr Adroddiad Cwmpasu. |
| 3.1.5 | Paragraff 6.5.7 | Asesu | Dylai'r Ymgeisydd geisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol nad oes angen asesiad o'r Datblygiad Arfaethedig mewn dull direolaeth er mwyn llywio'r asesiad achos gwaethaf. Dylid rhoi tystiolaeth o hyn yn yr ES. |

## 3.2 Sŵn a dirgryndod

(Adran 7 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.2.1 | Paragraff 7.4.4 a Thabl 7-8 | Allyriadau sŵn a dirgryndod o elfennau presennol y prosiect yn ystod y cyfnod adeiladu | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad oes angen unrhyw waith ar elfennau presennol y prosiect, ac felly ni fyddai unrhyw effeithiau sy'n deillio o waith adeiladu. Fel y cyfryw, gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. Fodd bynnag, dylai allyriadau sŵn a dirgryndod o elfennau presennol y prosiect fod yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer yr asesiad. |
| 3.2.2 | Paragraff 7.4.4 a Thabl 7-8 | Allyriadau sŵn a dirgryndod o elfennau presennol y prosiect yn ystod gweithredu | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn newid yr allyriadau sŵn a dirgryndod a brofir ar hyn o bryd o elfennau presennol y prosiect. Felly, gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. Fodd bynnag, dylai allyriadau sŵn a dirgryndod o elfennau presennol y prosiect fod yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer yr asesiad. |
| 3.2.3 | Paragraff 7.7.3 a Thabl 7-8 | Sŵn o draffig gweithredol | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod lefel y traffig a achosir yn ystod gweithredu yn annhebygol o arwain at effaith arwyddocaol.<br>Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth, gan nodi'r ymateb gan CNC a chydnabod bod posibilrwydd o effeithiau cyfunol/cronnol o ganlyniad i Ddatblygiadau Arfaethedig eraill o fewn cyffiniau'r safle, yn ystyried bod angen rhagor o wybodaeth am effeithiau cronnol tebygol traffig cyn y gellir hepgor y mater hwn o ran sŵn. Anogir yr Ymgeisydd i drafod hyn a cheisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol. |
| 3.2.4 | Paragraff 7.7.4 a Thabl 7-8 | Allyriadau dirgryndod o'r gwaith yn ystod gweithredu | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad oes unrhyw ffynonellau sy'n creu dirgryndod yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, ac felly gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.2.5 | Paragraff 7.7.5 a Thabl 7-8 | Datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.2.6 | Tabl 7-1 | Adnabod derbynyddion sensitif | Mae Tabl 7-1 yn nodi lleoliadau derbynyddion sensitif o fewn 300m ar gyfer yr asesiad adeiladu ac o fewn 1km ar gyfer yr asesiad gweithredol. Dylai'r Ymgeisydd egluro pam mae effeithiau'n debygol y tu hwnt i 300m yn ystod gweithredu ond nid yn ystod y gwaith adeiladu. Dylid gwneud ymdrech i gael cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol ar ardal(oedd) astudio. |

## 3.3 Traffig a thrafnidiaeth

(Adran 8 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.3.1 | Paragraff 8.7.7 a Thabl 8-5 | Symudiadau traffig gweithredol | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod nifer y teithiau cerbydau a ragwelir ar gyfer y 66 o staff y bydd eu hangen ar y safle yn ystod gweithredu a 14 o deithiau Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV) y diwrnod yn annhebygol o arwain at effaith arwyddocaol. Nodir y rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 230 AADT yn ystod blynyddoedd o waith cynnal a chadw.<br>Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth, gan nodi'r ymateb gan CNC a chydnabod bod posibilrwydd o effeithiau cyfunol/ cronnol o ganlyniad i Ddatblygiadau Arfaethedig eraill o fewn cyffiniau'r safle, yn ystyried bod angen rhagor o wybodaeth am yr effeithiau cronnol tebygol cyn y gellir hepgor y mater hwn o ran symudiadau traffig. Anogir yr Ymgeisydd i drafod hyn a cheisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol. |
| 3.3.2 | Paragraff 8.7.9 a Thabl 8-5 | Datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.3.3 | Paragraff 8.5.5 | Llinell sylfaen | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r defnydd o arolygon ar droed i lywio'r llinell sylfaen; fodd bynnag, ni esbonnir beth yw diben y rhain. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu yn gysylltiedig â gwaith arolygu traffig sydd i'w gynnal, er y nodir bod data cyfrifiadau traffig wedi'u rhestru o dan 'ffynonellau gwybodaeth'. Dylai'r fethodoleg ar |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | gyfer casglu data sylfaenol gael ei nodi'n glir yn yr ES a dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y dull â'r cyrff ymgynghori perthnasol. |
| 3.3.4 | Dd/B | Llinell sylfaen yn y dyfodol | Wrth benderfynu ar flwyddyn asesu briodol a'r dull rhagamcanu, gofynnir i'r Ymgeisydd ystyried a rhoi sylwadau yn yr ES ar unrhyw oblygiadau yn y Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth (TAG) "TAG Uned M4 – Rhagamcanu ac Ansicrwydd" (cyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT) yn 2023) a'r Amcanestyniadau Modelu Traffig diweddaraf o 2022. |
| 3.3.5 | Paragraff 8.5.19 | Meini prawf ar gyfer asesiadau | Er bod yr adran polisi a chanllawiau yn yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio'n briodol at Ganllawiau'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA) ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Traffig a Symudiadau a gyhoeddwyd yn 2023, mae'r rhestr o feini prawf ar gyfer asesiadau yn adlewyrchu Canllawiau'r IEMA ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Traffig Ffyrdd (1993) sydd bellach wedi'u disodli. Dylai'r asesiad yn yr ES ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf neu roi sylwebaeth i gyfiawnhau pam nad ydynt wedi'u dilyn. |
| 3.3.6 | Dd/B | Asesu | Dylai'r ES nodi a ellid defnyddio trafnidiaeth afon o bosibl wrth adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. |

## 3.4 Ecoleg ddaearol a dyfrol

(Adran 9 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.4.1 | Paragraffau 9.7.1 a 9.7.4 a Thabl 9-7 | Colli safleoedd a chynefinoedd dynodedig yn barhaol a chymryd tir dros dro yn ystod gweithredu | Mae Tabl 9-7 yr Adroddiad Cwmpasu yn ystyried y llwybr effaith posibl hwn yn ystod y cyfnod adeiladu ond nid yw'n cyfeirio ato mewn perthynas â gweithredu. Fel y cyfryw, mae'r Arolygiaeth yn deall y bwriedir hepgor y mater hwn o'r ES.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ES asesu arwyddocâd unrhyw gynefinoedd a gollir yn barhaol yn ystod y cyfnod adeiladu a fyddai'n parhau i'r cyfnod gweithredol, ac unrhyw gynefin a gollir neu ddirywiad a allai ddeillio o newidiadau gweithredol o ran ansawdd aer a dŵr.<br><br>Hefyd, dylai'r ES ddisgrifio unrhyw ofynion cynnal a chadw a allai effeithio ar safleoedd a chynefinoedd dynodedig yn ystod gweithredu, gan gynnwys cymryd unrhyw dir dros dro y gallai fod ei angen i hwyluso hyn. Lle gallai unrhyw weithgareddau o'r fath arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol, dylid darparu asesiad yn yr ES. |
| 3.4.2 | Paragraff 9.4.26 a Thabl 9-7 | Effeithiau ar bathewod yn ystod pob cam | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar sail diffyg cynefin addas ar gyfer pathewod.<br><br>Mae paragraff 9.4.26 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod arolygon cynefinoedd cam 1 a gwblhawyd ym mis Awst 2021 a mis Tachwedd 2023 wedi dod i'r casgliad bod cynefinoedd o fewn y safle yn darparu cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer pathewod y cyll a bod cysylltedd cyfyngedig â chynefinoedd oddi ar y safle oherwydd ei fod wedi'i amgylchynu gan Afon Dyfrdwy a datblygiadau eraill. Mae'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (Atodiad B yr Adroddiad Cwmpasu) yn nodi |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | bod y "*safle yn agos at derfynau dosbarthiad hysbys y rhywogaeth hon yn y DU.*"<br><br>Ar y sail honno, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau arwyddocaol ar bathewod y cyll yn annhebygol o ddigwydd a gellir hepgor y mater hwn o'r ES. Dylid adrodd yn yr ES ar ganlyniadau arolygon cynefinoedd cam 1 ac unrhyw wybodaeth a geir o gofnodion lleol. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.4.3 | Paragraffau 9.4.2 - 9.4.3 a Ffigur 9-1 | Ardal astudio a derbynyddion | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig ardal astudio 15km o amgylch y prif safle er mwyn nodi safleoedd wedi'u dynodi gan Ewrop, SoDdGA, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, yn seiliedig ar ganllawiau ar gyfer asesu effeithiau ar ansawdd aer yn ystod gweithredu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Arolygiaeth yn deall bod pob safle wedi'i ddynodi gan Ewrop a SoDdGA o fewn 15km yn cael eu hasesu ar gyfer yr effeithiau a restrir yn Nhabl 9-7.<br><br>Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod hon yn ardal astudio briodol, ond mae'n nodi bod Ffigur 9-1 yn dangos nifer o SoDdGA a safleoedd Ramsar y tu allan i'r glustogfa 15km ond yn agos ati. Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid asesu'r safleoedd hyn yn yr ES lle mae posibilrwydd y gallai effeithiau ymestyn iddynt ac arwain at LSE. Noder y sylwadau gan CNC ynghylch effeithiau posibl ansawdd aer ar SoDdGA, fel y nodir yn Rhif 3.1.4 y Farn Gwmpasu hon. |
| 3.4.4 | Paragraff 9.4.18 a Thabl 9-5 | Arolygon ecolegol arfaethedig | Mae Tabl 9-5 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r cynigion ar gyfer arolygon ecolegol a chasglu data, ynghyd â chwmpas, amseriad a graddau a awgrymir ar gyfer yr arolygon. Mae'r Arolygiaeth o'r farn |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | bod cwmpas arfaethedig yr arolygon yn dderbyniol, yn amodol ar y sylwadau canlynol:<br>▪ Dylai graddau'r arolygon terfynol gael eu disgrifio'n glir a'u dangos ar ffigurau o fewn yr ES;<br>▪ Mae paragraff 9.4.18 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi y cynigir arolygon cynefinoedd ym mhob lleoliad adeiladu seilwaith parhaol, h.y. heb gynnwys y coridor cysylltu carbon deuocsid ($CO_2$) a addasir at ddibenion gwahanol, a'r coridor nwy naturiol presennol, ac ardaloedd lle mae tir yn cael ei gymryd neu y bydd tarfu dros dro, yn ogystal â'r Ardal Wella Ddangosol. Wrth gwblhau graddau'r arolwg, mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid ystyried unrhyw waith clirio llystyfiant a/ neu waith cynnal a chadw sy'n ofynnol yn y coridorau cysylltu sydd wedi'u heithrio. Lle cynigir gweithgarwch o'r fath ac y gallai arwain at lwybrau effaith i effeithiau arwyddocaol tebygol, mae'r Arolygiaeth o'r farn y dylai'r lleoliadau hyn hefyd fod yn destun arolygon i sefydlu dealltwriaeth ddigonol o'r llinell sylfaen;<br>▪ Mewn sawl achos, dywedir y byddai arolygon yn digwydd o fewn y Safle a chlustogfeydd "*lle bo hynny'n hygyrch*". Lle mae graddau arolygon yn gyfyngedig oherwydd problemau hygyrchedd, dylai'r ES esbonio pa ymdrechion a wnaed i gael mynediad a sut y bwriedir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn nata'r arolygon;<br>▪ Ar gyfer arolygon adar sy'n bridio, mae CNC, yn ei ymateb, wedi gofyn am gwblhau ymweliadau ychwanegol er mwyn pennu presenoldeb rhywogaethau cyfnosol/ nosol;<br>▪ Dylid ystyried cofnodion rhywogaethau adar o gofnodion lleol ac a yw'r rhain yn dangos presenoldeb posibl derbynyddion adaregol ychwanegol o fewn yr ardal astudio, e.e. tylluanod gwyn sy'n bridio, y byddai angen eu harolygu (ac asesiad yn y DA); |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | ▪ Dylid gwneud ymdrech i gytuno â chyrff ymgynghori perthnasol ar gwmpas, amseriad a graddau'r ymdrech arolygu cyn i'r gwaith arolygu ddechrau. Dylid cyflwyno tystiolaeth o unrhyw gytundeb neu fel arall yn yr ES;<br>▪ Lle penderfynir yn y pen draw i hepgor ymdrech arolygu bellach, er enghraifft dywedir y gallai hyn fod yn wir yn achos llyffantod y twyni, presenoldeb/ absenoldeb clwydfannau ystlumod, DNA amgylcheddol pysgod ac infertebratau daearol, dylai'r ES esbonio pam mae'r dull hwn yn briodol, ynghyd â thystiolaeth o unrhyw gytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol; a<br>▪ Dylai'r ES gadarnhau hyd cyffredinol y gwrychoedd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y Datblygiad Arfaethedig ar draws terfynau'r Gorchymyn dDCO, a chategoreiddio faint sy'n debygol o fod yn destun effeithiau dros dro a/ neu barhaol.<br>Ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu ac yn Atodiad B Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol, mae'r Arolygiaeth yn cytuno:<br>▪ nad oes angen arolwg pellach o bathewod y cyll, gan nodi bod cynefin a/ neu gysylltiad â chynefin addas oddi ar y safle yn gyfyngedig o ran pathewod y cyll; ac<br>▪ nad oes angen unrhyw arolwg pellach o ymlusgiaid, gan nodi bod yr arolygon a gwblhawyd ym mis Ebrill 2022 wedi dod i'r casgliad bod posibilrwydd o bresenoldeb niferoedd bach o ymlusgiaid cyffredin yn yr Ardal Wella Ddangosol yn unig ac nad yw'r cynefin wedi newid llawer o gwbl ers yr arolwg.<br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid crynhoi gwaith arolygu yn yr ES ac y dylid darparu adroddiadau arolygu fel atodiadau technegol i'r ES. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.4.5 | Paragraff 9.4.32 | Derbynyddion adaregol | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn crynhoi canfyddiadau arolygon adar a gwblhawyd hyd yma. Mae'r Arolygiaeth yn nodi ei bod yn ymddangos bod anghysondeb rhwng y wybodaeth a gyflwynir ym mhrif destun yr Adroddiad Cwmpasu, a'r hyn a geir yn yr arfarniad ecolegol rhagarweiniol (ac atodiadau) yn Atodiad B yr Adroddiad Cwmpasu. Er enghraifft, nid yw prif destun yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at bresenoldeb gylfinirod, sef nodwedd gymhwysol yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Aber Afon Dyfrdwy ond mae paragraff 2.10.5 yr arfarniad ecolegol rhagarweiniol yn nodi bod "*nifer fawr o gylfinirod sy'n bwydo… yn bresennol yn y cynefinoedd hyn ar adeg yr arolygon maes.*" Dylai'r asesiad yn yr ES fod yn seiliedig ar linell sylfaen gadarn, y dylid ei disgrifio'n gyson â data arolygon a data eraill a gasglwyd. |
| 3.4.6 | Paragraff 9.5.20 | Asesiad rheoliadau cynefinoedd (HRA) | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y cynigir HRA ac y byddai'n cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyngor Deg yr Arolygiaeth: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (AN10)<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid defnyddio canfyddiadau'r HRA i lywio'r asesiad yn yr ES. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r ES, mae'r Arolygiaeth yn nodi nad yw AN10 bellach yn gofyn am ddarparu matricsau fel rhan o adroddiad(au) HRA. |
| 3.4.7 | Paragraff 9.6.2 | Mesurau lliniaru corfforedig | Yn achos nifer o fesurau lliniaru corfforedig posibl, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu "*cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol*". Mae hyn yn cynnwys osgoi tymor nythu adar ar gyfer gwaith clirio cynefinoedd, a llwybro coridorau cysylltu i osgoi cynefinoedd sensitif/ defnyddio technegau adeiladu anymwthiol wrth is-afon Pentre Brook/ Lead Brook. Lle nad yw'n glir a ellir cyflawni a/ neu sicrhau mesurau lliniaru o'r fath, dylai'r asesiad ystyried yr achos gwaethaf heb y mesurau, a nodi unrhyw fesurau |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | lliniaru ychwanegol y byddai eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw LSE sy'n codi. |
| 3.4.8 | Tabl 9-7 | Effeithiau posibl – gwrychoedd a choetir hynafol | Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Arolygiaeth yn deall y bydd yr asesiad colli cynefinoedd/ cymryd tir dros dro a diraddio a tharfu ar nodweddion ecolegol, yn enwedig oherwydd llwch/ newid yn ansawdd aer, yn cynnwys ystyried gwrychoedd a choetir hynafol. |
| 3.4.9 | Adran 9.7 | Effeithiau posibl - lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) | Mae paragraffau 9.4.27 a 9.4.37 yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at waith arolygu sy'n ystyried y posibilrwydd o bresenoldeb INNS daearol a dyfrol, ond nid yw'r adran effeithiau yn cynnwys y posibilrwydd o ledaeniad INNS fel llwybr effaith. Mae Adran 4.1 yr Arolwg Cynefinoedd a Ffawna Cam 1 (Atodiad B yr Adroddiad Cwmpasu) yn nodi bod cofnodion o Glymog Japan, Jac y Neidiwr a Llawrgeirios, er na nodwyd eu presenoldeb yn yr arolwg safle.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ES nodi a disgrifio unrhyw INNS sy'n bresennol yn y llinell sylfaen a chynnwys asesiad lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd, neu esbonio fel arall pam nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol, gyda thystiolaeth o gytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol. |
| 3.4.10 | Paragraffau 9.7.1 a 9.7.4 a Thabl 9-7 | Effeithiau dirgryndod ar rywogaethau nodedig a rhywogaethau a warchodir yn ystod y gwaith adeiladu | Nodir bod dirgryndod wedi'i gynnwys yn Nhabl 9-7 yr Adroddiad Cwmpasu ond nid yw wedi'i restru yn y paragraffau ar wahân sy'n disgrifio effeithiau posibl. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Arolygiaeth yn deall, yn ogystal â sŵn adeiladu ychwanegol, y byddai'r asesiad yn asesu dirgryndod oherwydd gwaith adeiladu lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd. |
| 3.4.11 | Paragraffau 9.7.6 a 10.4.4 a Thabl 9-7 | Effeithiau posibl ar bysgod, gan gynnwys cludiant/ gwrthdrawiadau, a/ neu amharu ar lwybrau mudo yn ystod gweithredu | Mae paragraff 9.7.6 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd cludiant, gwrthdrawiadau, ac amharu ar lwybrau mudo yn cael eu hasesu yn y bennod ar ecoleg forol yn yr ES, ond mae Tabl 9-7 yn nodi bod hyn wedi'i gwmpasu ar gyfer ecoleg ddaearol a dyfrol. Mae'r mater hwn |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | hefyd wedi'i gwmpasu gan gyfeirio at "ecoleg forol" yn Nhabl 10-2 yr Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r effeithiau posibl ar bysgod (gan gynnwys llysywod a lampreiod) o ganlyniad i gludiant, gwrthdrawiadau neu amhariadau eraill ar lwybrau mudo yn ystod gweithredu, gael eu hasesu yn yr ES, ynghyd ag unrhyw lwybrau effaith eraill yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu a allai achosi effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon i hyn gael ei gyflwyno naill ai ym mhennod yr ES ar ecoleg ddaearol a dyfrol, neu yn y bennod ar ecoleg forol, gan groesgyfeirio yn ôl yr angen, ar yr amod bod yr holl gyrsiau dŵr a allai gael eu heffeithio, e.e. afonydd, ardaloedd rhynglanwol ac ardaloedd morol, yn cael eu hasesu.<br><br>Mae paragraff 10.4.4 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod angen asesu'r gofyniad i uwchraddio neu amnewid sgriniau llyswennod fel rhan o Bennod 9.0 Ecoleg Ddaearol a Dyfrol, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at sgriniau llyswennod yn adran 9 yr Adroddiad Cwmpasu. Dylai'r ES nodi'r angen i uwchraddio neu amnewid sgriniau llyswennod, ac unrhyw sgriniau mewnlif, er mwyn lliniaru effeithiau eraill ar rywogaethau pysgod mudol Atodiad II eraill; os oes angen, dylid eu sicrhau'n eglur drwy'r DCO. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2). |
| 3.4.12 | Dd/B | Cynllun rheoli cadwraeth | Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2), sy'n datgan bod cynllun rheoli cadwraeth ar waith ar safle'r Datblygiad Arfaethedig sy'n darparu mesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau blaenorol. Dylai'r disgrifiad o'r llinell sylfaen yn yr ES gynnwys ystyriaeth o'r cynllun a'r targedau y mae'n ofynnol iddo eu cyrraedd. Dylai'r ES gadarnhau sut y byddai unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn ymwneud â'r cynllun hwn. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.4.13 | Dd/B | Atodiadau cyfrinachol | Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb i osgoi rhyddhau gwybodaeth amgylcheddol a allai achosi niwed i nodweddion ecolegol sensitif neu fregus. Dylai data arolygu ac asesu penodol yn ymwneud â phresenoldeb a lleoliadau rhywogaethau fel moch daear, adar a phlanhigion prin y gellid tarfu arnynt, eu difrodi neu eu herlid, neu y gallent fod yn destun cam-fanteisio masnachol o ganlyniad i gyhoeddi'r wybodaeth, gael ei ddarparu yn yr ES fel atodiad cyfrinachol. Dylai'r holl wybodaeth asesu arall gael ei chynnwys mewn pennod o'r ES, yn ôl yr arfer, gyda dalfan sy'n esbonio bod atodiad cyfrinachol wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth ac y gallai fod ar gael ar gais. |

## 3.5 Ecoleg forol

(Adran 10 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.5.1 | Paragraffau 10.4.9 a 10.5.5 | Effeithiau ar barthau cadwraeth morol (MCZ) | Ar sail y pellter rhwng y Datblygiad Arfaethedig a'r MCZ agosaf (MCZ Fylde, sy'n fwy na 50km ar y pwynt agosaf), ac yn absenoldeb llwybrau effaith posibl, mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. |
| 3.5.2 | Paragraff 10.7.1 | Colli cynefinoedd yn uniongyrchol a tharfu ffisegol oherwydd gwaith islaw penllanw cymedrig y gorllanw (MHWS) y tu allan i'r coridor cysylltiad dŵr yn ystod y gwaith adeiladu | Er na nodir hyn fel mater i'w hepgor yn Nhabl 10-2, mae'r Arolygiaeth yn nodi y bwriedir cyfyngu'r asesiad yn ofodol i weithgarwch yn y coridor cysylltiad dŵr (a ddangosir yn Ffigur 1-3 yr Adroddiad Cwmpasu) yn hytrach na Pharth Dylanwad (ZoI) diffiniedig ar gyfer effeithiau posibl.<br><br>Nid oes gan yr Arolygiaeth ddigon o wybodaeth am waith yn ystod y cyfnod gweithredol i eithrio'r posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol tebygol yn deilio o'r llwybr effaith hwn. Dylid ystyried a allai cynefinoedd gael eu colli, e.e. oherwydd gwaith carthu cynnal a chadw a newidiadau hydromorffolegol gan gynnwys erydiad parhaus. Lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol, dylid eu hasesu yn yr ES. |
| 3.5.3 | Paragraffau 10.7.2 - 10.7.3 a Thabl 10-2 | Tarfu ffisegol ar ecoleg forol yn sgil newidiadau mewn seinwedd yn yr awyr a tharfu gweledol o fewn y ZoI yn ystod y gwaith adeiladu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod gan weithgareddau ar afonydd ac ar dir y potensial i darfu ar forloi sydd wedi dod i'r wyneb neu sy'n gorwedd, ond oherwydd y pellter rhwng y Datblygiad Arfaethedig a'r safle gorwedd agosaf yn Ynys Hilbre (mwy na 15km i lawr yr afon) ni fydd unrhyw lwybr ar gael. Bydd derbynyddion adaregol yn cael eu hystyried ym mhennod yr ES ar ecoleg ddaearol a dyfrol.<br><br>Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd a gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. Noder sylwadau'r |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Arolygiaeth yn Rhif 3.5.9 y Farn Gwmpasu hon ynghylch derbynyddion i'w hystyried mewn perthynas â sŵn a dirgryndod tanddwr yn ystod y gwaith adeiladu. |
| 3.5.4 | Paragraff 10.7.4 | Cyflwyniad a lledaeniad INNS yn ystod gweithredu | Er na nodir hyn fel mater i'w gwmpasu yn Nhabl 10-2 yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn nodi ei fod wedi'i gwmpasu ar gyfer y cyfnod adeiladu yn gysylltiedig â gwaith mewn afonydd. Nid yw'n glir os gallai fod gwaith mewn afonydd yn ystod gweithredu, e.e. cynnal a chadw'r ollyngfa a/ neu waith carthu cynnal a chadw gan ddefnyddio cychod, a allai arwain at lwybrau effaith. Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid egluro hyn yn yr ES, ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol. |
| 3.5.5 | Paragraffau 10.7.5 - 10.7.6 a Thabl 10-2 | Tarfu ffisegol ar ecoleg forol oherwydd newidiadau mewn sŵn tanddwr a tharfu gweledol yn ystod gweithredu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi na fydd y cyfnod gweithredol yn arwain at newidiadau mewn sŵn tanddwr neu darfu gweledol a fyddai'n effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau morol.<br>Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd. Gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.5.6 | Paragraff 10.3.2 | Rhagdybiaethau, cyfyngiadau ac ansicrwydd | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod ansicrwydd ynghylch y fethodoleg adeiladu ar gyfer gwaith o fewn y coridor cysylltiad dŵr, ond dangosir yr ardal fwyaf sydd ei hangen yn Ffigur 1-3 yn Atodiad A yr Adroddiad Cwmpasu. Hefyd, dylai'r ES esbonio pa ragdybiaethau a wnaed am y fethodoleg, a dylai'r asesiad fod yn seiliedig ar y paramedrau uchaf neu'r senario waethaf. Dylid meintioli'r posibilrwydd o golli cynefin yn barhaol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn. Yn ogystal, dylai'r ES gadarnhau'r nifer a ragwelir o symudiadau |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | cychod yn ystod pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig. Mae sylwadau'r Arolygiaeth yn Rhif 2.1.12 y Farn Gwmpasu hon ynghylch hyblygrwydd yr un mor berthnasol i'r mater hwn. |
| 3.5.7 | Paragraffau 10.4.2 - 10.4.3 | Dŵr oeri a gollwng | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod y CCGT presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio Afon Dyfrdwy ar gyfer tynnu dŵr oeri a'i ollwng, a gyflawnir yn unol â chyfraddau a therfynau a nodir mewn Trwydded Amgylcheddol a gyhoeddwyd gan CNC. Dywedir y gallai'r Datblygiad Arfaethedig ailddefnyddio'r seilwaith presennol neu mae'n bosibl y bydd angen seilwaith gollyngfa newydd.<br><br>Cyfeiriwch at sylwadau'r Arolygiaeth yn Rhif 2.1.8 y Farn Gwmpasu hon ynghylch sefydlu'r amodau sylfaenol at ddibenion asesu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y cyfraddau a'r terfynau presennol ac unrhyw ddata monitro a gafwyd fel rhan o'r Drwydded Amgylcheddol. Dylai'r ES ddiffinio'r paramedrau gwaethaf o ran cyfeintiau ac effeithiau thermol o'r Datblygiad Arfaethedig a chynnwys asesiad o unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol, yn enwedig ar dderbynyddion pysgod morol ac aberol.<br><br>Dylai'r Ymgeisydd ystyried a ddylid cynnal modelu tymheredd i lywio'r asesiad hwn. |
| 3.5.8 | Paragraff 10.4.5 | Ffynonellau data | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y byddai gwybodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) ar gyfrifiadau pysgod (data TraC) yn cael ei defnyddio, ond mae'n nodi wedyn mewn troednodyn nad oes gan EA unrhyw orsafoedd samplu pysgod ar Afon Dyfrdwy ac nad oes gwybodaeth ar gael am gyfrifiadau pysgod. Dylai'r asesiad yn yr ES gael ei ategu gan ddata sylfaenol cadarn. Os nad oes digon o ddata desg ar gael, dylid defnyddio ffynhonnell/ ffynonellau data amgen, a all gynnwys yr angen am arolwg/ arolygon pysgod mudol. Cyfeiriwch at sylwadau'r Arolygiaeth yn Rhif 3.5.10 y Farn Gwmpasu hon. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2) ynghylch yr Asesiad Sensitifrwydd Morol ar Sail Tystiolaeth (MarESA). Dylid defnyddio'r ffynhonnell ddata hon i lywio'r ES fel y bo'n berthnasol. |
| 3.5.9 | Paragraffau 10.4.6 - 10.4.7 a 10.4.19 a Thabl 10-1 | Ardal astudio a derbynyddion | Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid cwmpasu Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau ac ACA Gogledd Môn Forol, yn ogystal â llamidyddion a dolffiniaid trwyn potel, yn yr asesiad sŵn a dirgryndod tanddwr yn ystod y gwaith adeiladu, o ystyried natur symudol nodweddion cymhwyso mamaliaid morol a/ neu famaliaid morol, a allai fod yn bresennol yn Aber Afon Dyfrdwy.<br><br>Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2), sy'n nodi rhai bylchau a/ neu wallau yn y disgrifiad o dderbynyddion pysgod posibl. Dylid cywiro'r rhain yn yr ES.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn annog cytundeb ar baramedrau asesu â'r cyrff statudol perthnasol.<br><br>Dylai'r ES gynnwys ffigur sy'n dangos yr ardal(oedd) astudio terfynol a ddewiswyd. |
| 3.5.10 | Paragraffau 10.4.23 - 10.4.25 | Arolygon ecolegol morol | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig arolygon cynefinoedd rhynglanwol ar gyfer yr ardal islaw penllanw cymedrig y gorllanw (MHWS) o fewn y coridor cysylltiad dŵr a chlustogfa o 500m ar y naill ochr a'r llall "*lle bo'n hygyrch*". Dangosir y coridor cysylltiad dŵr yn Ffigur 1-3 yr Adroddiad Cwmpasu. Dywedir y byddai hyn yn cwmpasu cynefinoedd ac unrhyw ecoleg forol a allai fod yn sensitif, wedi'i diogelu ac INNS.<br><br>Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod cwmpas arfaethedig yr arolwg yn dderbyniol, yn amodol ar y sylwadau canlynol:<br><br>▪ Dylid disgrifio graddau'r arolwg terfynol yn glir a dangos hyn ar y ffigurau yn yr ES; |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | ▪ Lle mae graddau'r arolwg yn gyfyngedig oherwydd problemau mynediad, dylai'r ES esbonio pa ymdrechion a wnaed i gael mynediad a sut y bwriedir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn nata'r arolwg;<br>▪ Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, nid yw'n glir pa arolygon rhywogaethau penodol sy'n cael eu cynnig. Byddai'r Arolygiaeth yn disgwyl i'r ymdrech arolygu gynnwys pysgod mudol ac infertebratau dyfnforol. Dylid gwneud ymdrech i gytuno â chyrff ymgynghori perthnasol ar gwmpas, amseriad a graddau'r ymdrech arolygu cyn i'r gwaith arolygu ddechrau. Dylid cyflwyno tystiolaeth o unrhyw gytundeb neu fel arall yn yr ES; a<br>▪ Rhoddir rhesymu cyfyngedig dros beidio ag ymgymryd ag arolygon mamaliaid morol (ar gyfer mamaliaid heblaw morloi cyffredin a morloi llwyd). Gan nodi bod yr ardal astudio yn ymestyn i Aber Afon Dyfrdwy, lle gallai llamidyddion a dolffiniaid trwyn potel fod yn bresennol, ac o bosibl ymhellach hyd at dderbynyddion penodol ym Môr Iwerddon, mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid cynnal arolwg/ arolygon lle bo angen er mwyn sefydlu llinell sylfaen gadarn ar gyfer mamaliaid morol.<br>Ar sail gwybodaeth yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad oes angen arolygon morloi cyffredin a morloi llwyd gan fod dealltwriaeth dda o bresenoldeb y mamaliaid morol hyn.<br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid crynhoi gwaith arolygu yn yr ES ac y dylid darparu adroddiadau arolygon fel atodiadau technegol i'r ES. |
| 3.5.11 | Adran 10.6 | Mesurau lliniaru ymgorfforedig | Mae paragraff 10.6.3 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi y byddai colli cynefinoedd yn barhaol oherwydd ailddefnyddio neu amnewid yr ollyngfa bresennol yn cael ei leihau "*cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol*" ond nid yw'n esbonio sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Dylid esbonio'n glir y mesurau lliniaru ymgorfforedig y dibynnir arnynt |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol arwyddocaol, gan gynnwys defnyddio lluniadau fel y bo'n berthnasol, a chroesgyfeirio yn yr ES. Dylai mesurau gael eu sicrhau'n eglur drwy'r dDCO neu fecanwaith cyfreithiol arall.<br><br>Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2) ynghylch INNS. Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid paratoi asesiad risg bioddiogelwch a chynllun rheoli INNS ar gyfer gweithgareddau gweithredol yn yr amgylchedd morol, a'u cyflwyno gyda'r cais am DCO. |
| 3.5.12 | Tabl 10-2 | Effeithiau posibl – mamaliaid morol | Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Arolygiaeth yn deall bod cyfeiriadau at ecoleg forol yn y disgrifiad o effeithiau adeiladu a gweithredu a gwmpaswyd yn yr asesiad yn cynnwys mamaliaid morol. Dylid ystyried a allai gwaith adeiladu arwain at golli cynefin neu darfu dros dro ar famaliaid morol, h.y. y rhai a allai fod yn defnyddio cynefin yn Aber Afon Dyfrdwy; os oes effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd, dylid asesu'r rhain yn yr ES. |
| 3.5.13 | Tabl 10-2 | Effeithiau posibl - oherwydd mwy o waddod mewn daliant a newidiadau hydromorffolegol yn ystod y gwaith adeiladu | Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai asesiad o'r llwybrau effaith hyn gynnwys ystyriaeth o unrhyw effeithiau prosesau ffisegol sy'n gysylltiedig â gosod a defnyddio argae coffr (fel y nodir ym Mhennod 14 yr Adroddiad Cwmpasu). Cyfeiriwch at sylwadau'r Arolygiaeth yn Rhif 3.9.7 y Farn Gwmpasu hon. |
| 3.5.14 | Tabl 10-2 | Effeithiau posibl yn deillio o golli cynefinoedd dyfnforol a/ neu darfu yn ystod y gwaith adeiladu | Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC (gweler Atodiad 2). Dylai'r asesiad ystyried y posibilrwydd o golli cynefinoedd dros dro ac yn y tymor hwy o ganlyniad i'r ystod lawn o weithgareddau adeiladu sydd eu hangen. Dylid disgrifio hyd yr effaith ddisgwyliedig yn yr ES. |
| 3.5.15 | Dd/B | Atodiadau cyfrinachol | Cyfeiriwch at sylwadau'r Arolygiaeth yn Rhif 3.4.13 y Farn Gwmpasu hon ynghylch atodiadau cyfrinachol ar gyfer nodweddion ecolegol sensitif neu fregus. |

## 3.6 Yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd

(Adran 11 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.6.1 | | dd/b | Ni chynigiwyd hepgor unrhyw faterion o'r asesiad. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.6.2 | Paragraff 11.1.3 | Penodau cysylltiedig yr ES | Fel y nodwyd yn Rhif 3.6.7, ceir lefel uchel o drwythiad dŵr daear, a dylai'r Ymgeisydd ystyried unrhyw oblygiadau o ran halogiad, er enghraifft. Dylid croesgyfeirio'n glir yn yr ES. Mae CNC yn ei ymateb (gweler Atodiad 2) yn nodi y dylai croesgyfeirio o'r fath fod yn bresennol yn y bennod agwedd ar ddamweiniau mawr a thrychinebau. |
| 3.6.3 | Paragraff 11.2.2 | Canllawiau arferion da | Nodir nad yw rhai o'r canllawiau y cyfeirir atynt drwy gydol y bennod agwedd yn yr Adroddiad Cwmpasu wedi'u rhestru yn y rhestr o ganllawiau a nodwyd. Yn yr ES, dylid cynnwys yr holl ganllawiau y cyfeiriwyd atynt mewn rhestr gyfeirio. Mae CNC wedi nodi canllawiau ychwanegol i'w hystyried (gweler Atodiad 2). |
| 3.6.4 | Dd/B | Methodoleg | Dylai'r Ymgeisydd ystyried a oes angen modelu tymheredd fel rhan o'r asesiad EIA a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD), y dylid ei ddefnyddio i lywio'r ES. Dylai'r ES gynnwys cyfiawnhad o'r fethodoleg ar gyfer asesu adnoddau dŵr, gan wneud ymdrech i gael cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol. |
| 3.6.5 | Paragraff 11.4.56 | Modelu hydrolig | Mae sylwadau CNC (gweler Atodiad 2) yn nodi nad yw'r modelu hydrolig y cyfeirir ato ym mharagraff 11.4.56 yr Adroddiad Cwmpasu, sef model Afon Dyfrdwy lanwol, yn cynnwys safle'r Datblygiad |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Arfaethedig o fewn graddau'r model 1D-2D. Felly, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o fodelu ychwanegol er mwyn meintioli'r perygl llifogydd o ran safle'r Datblygiad Arfaethedig. Rhoddir rhagor o fanylion yn ymateb CNC, y dylai'r Ymgeisydd roi sylw iddynt. Mae'r Arolygiaeth yn cynghori bod yr Ymgeisydd yn trafod ac yn ceisio cytundeb â CNC a chyrff ymgynghori perthnasol eraill os dylid trin y Datblygiad Arfaethedig fel datblygiad newydd sy'n agored iawn i niwed at ddibenion asesu perygl llifogydd a chymhwyso profion polisi. Nid yw hwn yn fater y gall yr Arolygiaeth roi cyngor arno. |
| 3.6.6 | Paragraff 11.4.58 | Cyflwr dŵr daear | Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid darparu ymchwiliad safle o ran cyflwr dŵr daear er mwyn sefydlu'r amodau sylfaenol, o ystyried barn CNC bod y lefel trwythiad dŵr daear yn uchel.<br><br>Mae CNC yn nodi yn ei ymateb (gweler Atodiad 2) y dylai amodau sylfaenol gynnwys disgrifiad o raddiannau a halltedd. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn bwysig wrth asesu llwybrau halogi ar gyfer y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, yn arbennig oherwydd eu hagosrwydd at safleoedd dynodedig.<br><br>Dylai'r ES ystyried y materion hyn a darparu cyfiawnhad dros unrhyw wyriad(au) oddi wrth gyngor. |
| 3.6.7 | Paragraff 11.5.2 | Tynnu dŵr | Dylai'r ES gadarnhau a fyddai'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer tynnu dŵr yn ymwneud â gofyniadau am ddŵr sy'n ychwanegol at y cyfeintiau trwyddedig presennol. Mae'n debygol y byddai angen diwygiadau i'r drwydded tynnu dŵr bresennol hyd yn oed os nad yw'r cyfeintiau o ddŵr yn newid. Dylai'r ES roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn ac unrhyw drwyddedau eraill a geisir. |
| 3.6.8 | Paragraff 11.5.4 | Methodoleg gyffredinol | Dylai'r ES gynnwys mwy o fanylion am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau penodol a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Oherwydd lleoliad y Datblygiad Arfaethedig, dylai'r Ymgeisydd hefyd |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn ogystal â CNC lle bo hynny'n briodol. |
| 3.6.9 | Paragraff 11.5.7 | Strategaeth amlinellol ar gyfer draenio dŵr wyneb | Cynigir cysyniad/ strategaeth amlinellol ar gyfer draenio dŵr wyneb ar y Prif Safle. Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfiawnhau pam y mae wedi'i gyfyngu i'r Prif Safle a heb gynnwys y cydrannau eraill. Dylai'r ES gynnwys cyfiawnhad o'r fath, neu dylid cynnwys safleoedd a chydrannau eraill yn y cysyniad/ strategaeth amlinellol ar gyfer draenio dŵr wyneb. |
| 3.6.10 | Dd/B | Statws cyrff dŵr ar sail y WFD | Tynnir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC (gweler Atodiad 2) sy'n nodi bod dosbarthiad interim statws cyrff dŵr yn ddyledus yn 2024. Dylai pob asesiad fod yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. |

## 3.7 Daeareg a chyflwr y tir

(Adran 12 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.7.1 | Paragraff 12.3.4 a Thabl 12-4 | Ardaloedd y coridor cysylltu $CO_2$ a addasir at ddibenion gwahanol a'r coridor cysylltu nwy naturiol presennol – Yn ystod adeiladu ac ar ôl adeiladu/ ar ôl datgomisiynu | Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys unrhyw waith y tu hwnt i waith cynnal a chadw arferol ar gyfer y coridor cysylltu $CO_2$ a addasir at ddibenion gwahanol a'r coridor cysylltu nwy naturiol presennol. Fel y cyfryw, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn o asesiadau'r cyfnod adeiladu ac ar ôl adeiladu/ ar ôl datgomisiynu. |
| 3.7.2 | Paragraff 12.7.6 a Thabl 12-4 | Effeithiau andwyol ar iechyd dynol yn deillio o halogiad o fewn pridd bas heb ddŵr ac o fewn dŵr daear – Gweithredu | Mae'r Ymgeisydd yn cynnig hepgor effeithiau ar iechyd dynol yn deillio o halogiad o fewn pridd bas heb ddŵr ac o fewn dŵr daear yn ystod gweithredu ar y sail y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gweithredu yn unol â gofynion trwyddedu amgylcheddol. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon ar y dull hwn; fodd bynnag, byddai'n disgwyl gweld sylwadau wedi'u nodi yn yr ES ar y mesurau arferion gorau a fyddai'n cael eu dilyn yn ystod gweithredu, a'r tebygolrwydd o sicrhau trwydded neu'r cynnydd tuag at wneud hynny. |
| 3.7.3 | Paragraff 12.7.6 a Thabl 12-4 | Effeithiau andwyol ar bridd heb ddŵr ac ar ddŵr daear yn deillio o ddigwyddiadau llygredd sy'n osgoi'r system ddraenio – Gweithredu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd effeithiau ar bridd heb ddŵr ac ar ddŵr daear sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd sy'n osgoi'r system ddraenio yn ystod gweithredu yn cael eu hepgor ar y sail y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gweithredu'n unol â gofynion trwyddedu amgylcheddol.<br><br>Mae'r lefel trwythiad dŵr daear yn fas iawn ar y safle, fel y nodir ym mharagraff 12.5.51 yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried y mater hwn ochr yn ochr ag ymatebion gan gyrff ymgynghori perthnasol, a CNC yn arbennig, ac mae'n credu na ddylid hepgor y mater hwn ar hyn o bryd. |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Nododd CNC yn ei ymateb y gallai'r system ddraenio wasgaru cemegau'n sylweddol, yn dibynnu ar gynllun y system, ac mae'n gofyn am ymchwilio ac asesu pellach. Mae'r Arolygiaeth yn annog yr Ymgeisydd i drafod y mater hwn ymhellach gyda CNC. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.7.4 | Paragraffau 3.3.7 a 12.5.4 | Ymchwilio pridd a dŵr daear cyn adeiladu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r gofyniad i gasglu data pellach i lywio methodoleg a chwmpas yr asesiad. Dylai'r ES nodi cwmpas yr ymchwiliad hwn ac unrhyw gytundebau â chyrff ymgynghori perthnasol.<br>Dylai'r Ymgeisydd ystyried a oes angen monitro ar gyfer llywio'r llinell sylfaen. |
| 3.7.5 | Paragraffau 12.5.16 - 12.5.17 | Meini prawf ar gyfer asesiadau | Cynigir bod y meini prawf ar gyfer asesiadau a nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu yn dilyn canllawiau'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB), a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer cynlluniau ffyrdd. Nid yw'r defnydd o'r meini prawf hyn ar gyfer asesiadau wedi'i gyfiawnhau o fewn y testun i gadarnhau ei addasrwydd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r ES roi cyfiawnhad o'r fath. Dylai'r Ymgeisydd geisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol ar y meini prawf ar gyfer asesiadau. |
| 3.7.6 | Paragraff 12.6.4 | Datgomisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at Gynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu (DEMP).<br>Mae CNC (gweler Atodiad 2) yn cynghori yn ei ymateb y dylid paratoi Adroddiad Asesiad Datgomisiynu hefyd, sy'n cynnwys ystyried tasgau datgomisiynu tebygol a chostau amcangyfrifedig ar gyfer senarios ymchwilio ac adfer tir. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES mewn perthynas â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

## 3.8 Tirwedd ac amwynder gweledol

(Adran 13 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.8.1 | Paragraff 13.3.6 a Thabl 13-4 | Effeithiau goleuo yn ystod nos – y cyfnod adeiladu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o effeithiau goleuo yn ystod y nos yn y cyfnod adeiladu ar y sail bod lefelau uchel o oleuo eisoes yn bodoli oherwydd natur ddiwydiannol yr ardal, a bydd unrhyw oleuadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn rhai cyfeiriadol a thros dro.<br>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod lefel y golau ychwanegol a achosir yn ystod y gwaith adeiladu yn annhebygol o arwain at effaith arwyddocaol, ac felly gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad. |
| 3.8.2 | Tabl 13-4 | Effeithiau goleuo yn ystod nos – y cyfnod datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES mewn perthynas â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.8.3 | Paragraff 13.4.19 | Derbynyddion sensitif cynrychioliadol (gweledol) | Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod rhestr ddangosol o leoliadau golygfannau wedi'i darparu yn yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i gytundeb ar y rhestr hon â'r awdurdodau lleol perthnasol trwy ymgynghori pellach. Mae'r Arolygiaeth yn croesawu'r ymagwedd hon ac yn cynghori'r Ymgeisydd i wneud ymdrech i gytuno ar y lleoliadau â chyrff ymgynghori perthnasol eraill, er enghraifft yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a CNC. Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod topograffi a gorchudd tir yn cael eu hystyried wrth nodi derbynyddion. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Dylai'r Ymgeisydd ystyried a ddylai'r asesiad gynnwys derbynyddion o ran defnyddwyr y dyfrffyrdd a'r hawliau tramwy cyhoeddus (PRoW) o fewn cyffiniau safle'r Datblygiad Arfaethedig. |
| 3.8.4 | dd/b | Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Tynnir sylw'r Ymgeisydd at yr ymateb i'r ymgynghoriad cwmpasu gan CNC (gweler Atodiad 2) yn gysylltiedig ag effeithiau posibl ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. |
| 3.8.5 | dd/b | Strategaeth oleuo ddangosol | Dylai'r Strategaeth Oleuo ystyried effeithiau mewn perthynas â goleuo ar ddefnyddwyr y rheilffordd, dyfrffyrdd a PRoW cyfagos. |

## 3.9 Prosesau ffisegol

(Adran 14 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.9.1 | Paragraff 14.3.4 | Y coridor cysylltu $CO_2$ a addasir at ddibenion gwahanol – pob cam | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys unrhyw waith y tu hwnt i waith cynnal a chadw arferol ar gyfer y coridor cysylltu $CO_2$ a addasir at ddibenion gwahanol, ac nid yw wedi'i ystyried ymhellach yn yr asesiad. Fodd bynnag, nid yw wedi'i grynhoi'n benodol fel mater i'w hepgor yn Nhabl 14-3 yr Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Gan nodi hyn, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn ar gyfer y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, nodir nad yw'r Adroddiad Cwmpasu yn diffinio'r termau ar ôl adeiladu ac ar ôl datgomisiynu. Heb y wybodaeth hon, nid yw'r Arolygiaeth ar hyn o bryd yn cytuno i hepgor ar gyfer y cyfnodau hyn.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylid asesu'r mater hwn ar gyfer y cyfnodau gweithredu a datgomisiynu, neu roi cyfiawnhad i ddangos na fydd unrhyw LSE. |
| 3.9.2 | Paragraff 14.7.9 a Thabl 14-3 | Tarfu lleol ar forffoleg gwely'r môr a achosir gan yr argae coffr a strwythurau dros dro – adeiladu a datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu ynglŷn tharfu ar wely'r môr a achosir gan yr argae coffr a strwythurau dros dro, a chyngor a ddarparwyd gan CNC.<br><br>Mae CNC o'r farn na ddylai'r mater hwn gael ei hepgor ar hyn o bryd, a bod angen rhagor o wybodaeth.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cytuno â'r farn hon.<br><br>Cyfeirir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC (gweler Atodiad 2) sy'n amlygu gwybodaeth ynghylch tarfu ar forffoleg gwely'r môr, y dylai'r Ymgeisydd roi sylw iddi. |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.9.3 | Paragraff 14.7.9 a Thabl 14-3 | Gollwng a thynnu yn y coridor cysylltiad dŵr – gweithredu | Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod ansicrwydd ynghylch y gwaith arfaethedig ar gyfer y coridor cysylltiad dŵr, y cyfeirir ato ym mharagraff 14.3.2 yr Adroddiad Cwmpasu. Nid yw'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Ystyrir nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn ddigonol i wneud asesiad gwybodus o'r effeithiau posibl ar forffoleg gwely'r môr a derbynyddion eraill. Dylid asesu yn yr ES uchafswm cyfaint y dŵr y bwriedir ei dynnu a'i ollwng, yn ogystal â'r LSE. |
| 3.9.4 | Paragraff 14.7.11 a Thabl 14-3 | Erydiad oherwydd presenoldeb strwythurau gollyngfa newydd yn effeithio ar lifoedd lleol a lefelau gwely'r môr – gweithredu | Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu ynghylch erydiad oherwydd presenoldeb strwythurau gollyngfa newydd yn effeithio ar lifoedd lleol a lefelau gwely'r môr yn ystod gweithredu, a chyngor a roddwyd gan ymateb CNC.<br><br>Mae'r Arolygiaeth o'r farn na ddylai'r mater hwn gael ei hepgor ar hyn o bryd. Dylid darparu rhagor o wybodaeth am yr effeithiau posibl ar dderbynyddion sensitif a achosir gan erydiad a/ neu ailddosbarthu gwaddodion.<br><br>Cyfeirir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC (gweler Atodiad 2) sy'n amlygu gwybodaeth ynghylch tarfu ar forffoleg gwely'r môr, y dylai'r Ymgeisydd roi sylw iddi. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.9.5 | Paragraffau 14.4.1 a 14.4.12 | ZoI | Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod y ZoI yn ymestyn y tu hwnt i'r coridor cysylltiad dŵr; fodd bynnag, ychydig o wybodaeth a ddarparwyd i esbonio sut y dewiswyd yr ardal astudio. Dylai'r ES gynnwys esboniad, gan nodi y dylai'r ZoI fod yn seiliedig ar dderbynyddion a llwybrau effaith posibl i LSE, ac nid ardal neu bellter enwol. Cynghorir |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | yr Ymgeisydd y dylid defnyddio uchafswm cylchdro llanw mawr wrth benderfynu ar y ZoI. |
| 3.9.6 | Paragraff 14.4.3 | Deall y llinell sylfaen a methodoleg | Mae CNC yn rhoi cyngor (gweler Atodiad 2), gan gyfeirio at wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol ar gyfer deall y llinell sylfaen ac asesu LSE. Cyfeirir yr Ymgeisydd at yr ymateb hwn a chaiff ei annog i gael cytundeb â CNC ar y fethodoleg. |
| 3.9.7 | Paragraff 14.7.3 | Gosod argae coffr | Dylai'r ES nodi'r paramedrau uchaf ar gyfer yr argae coffr dros dro arfaethedig, gan gynnwys os/ sut y gallai arwain at lefelau uwch o waddod mewn daliant. Dylid asesu unrhyw LSE. |
| 3.9.8 | Paragraff 14.7.4 | Gwaredu gwastraff | Dylid ystyried gwaredu gwastraff yn dilyn carthu cynnal a chadw yn yr ES a chynnwys manylion y lleoliad gwaredu, cyfaint a'r math o ddeunydd, yn ogystal ag asesiad o'r effeithiau posibl ar y safle derbyn a'r ardal gyfagos. |
| 3.9.9 | Paragraff 14.7.5 | Llwybrau effaith | Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn glir yn gysylltiedig â'r llwybr effaith y cyfeirir ato yn y paragraff hwn. Dylid egluro hyn yn yr ES. Dylai'r ES gadarnhau pa dderbynyddion fydd yn cael eu heffeithio gan ffrydiau crynodiadau gwaddod mewn daliant (SSC) a'r posibilrwydd o ryddhau halogion o wely'r môr. |
| 3.9.10 | Paragraffau 14.7.7 - 14.7.9 | Erydiad gwely'r môr a achosir gan ollwng dŵr – gweithredu | Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu ynghylch erydiad gwely'r môr a'r ymateb gan CNC, sy'n cwestiynu'r dybiaeth y ceir yr effaith leiaf bosibl gyda gollyngiadau'n digwydd yn ystod y penllanw, ac effeithiau gollwng dŵr.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai erydiad gwely'r môr a achosir gan ollwng dŵr gael ei gynnwys yn yr ES ar hyn o bryd. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Anogir yr Ymgeisydd i drafod hyn a chytuno â chyrff ymgynghori perthnasol ar y dull gweithredu. |

## 3.10 Treftadaeth ddiwylliannol

(Adran 15 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.10.1 | Tabl 15-4 | Treftadaeth ddiwylliannol ddaearol: archaeoleg gladdedig – y cyfnod gweithredu a'r cyfnod datgomisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd unrhyw effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol ddaearol wedi digwydd ac wedi'u lliniaru yn ystod y cyfnod adeiladu.<br>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw effeithiau arwyddocaol ar archaeoleg gladdedig yn debygol yn ystod gweithredu a datgomisiynu, a gellir hepgor y mater hwn o'r asesiad.<br>Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ynghylch datgomisiynu yn gyfyngedig, ac felly mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu. |
| 3.10.2 | Tabl 15-4 | Treftadaeth ddiwylliannol forol: effeithiau uniongyrchol ar dderbynyddion treftadaeth ddiwylliannol forol hysbys a phosibl ar waddod y tarfwyd arno'n flaenorol – y cyfnod adeiladu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o'r effeithiau uniongyrchol ar dderbynyddion treftadaeth ddiwylliannol forol hysbys a phosibl ar waddod y tarfwyd arno'n flaenorol yn ystod gwaith adeiladu, ar y sail nad oes unrhyw dreftadaeth forol hysbys wedi'i nodi o fewn safle'r Datblygiad Arfaethedig, ac y bydd gweithgareddau adeiladu'n digwydd ar waddodion rhynglanwol symudol y tarfwyd arnynt yn flaenorol wrth osod yr all-lif gwreiddiol.<br>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol ar dreftadaeth ddiwylliannol forol yn ystod y gwaith adeiladu, am y rhesymau a nodir uchod, ac y gellir hepgor y mater hwn. |
| 3.10.3 | Tabl 15-4 | Treftadaeth ddiwylliannol forol: effeithiau anuniongyrchol ar dderbynyddion treftadaeth forol oherwydd newidiadau o ran | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o'r effeithiau anuniongyrchol ar dderbynyddion treftadaeth forol o ganlyniad i newidiadau o ran gwaddod neu brosesau hydrolegol, ar y sail y |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | gwaddod neu brosesau hydrolegol – y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu | disgwylir i newidiadau i hydrodynameg a phrosesau gwaddodol yn ystod adeiladu a gweithredu fod yn ddibwys.<br>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol ar dreftadaeth ddiwylliannol forol yn ystod adeiladu a gweithredu, a gellir hepgor y mater hwn. |
| 3.10.4 | Tabl 15-4 | Treftadaeth ddiwylliannol forol: effeithiau uniongyrchol ar dderbynyddion treftadaeth ddiwylliannol forol hysbys a phosibl a dyddodion o bwysigrwydd archaeolegol o ganlyniad i weithgareddau gweithredol a gwaith carthu cynnal a chadw – y cyfnod gweithredu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod effeithiau arwyddocaol yn deillio o weithgareddau gweithredol a gwaith carthu cynnal a chadw yn annhebygol ar y sail y bydd y gweithgareddau hyn yn digwydd mewn ardaloedd lle mae effaith carthu eisoes wedi digwydd.<br>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw effeithiau arwyddocaol ar dreftadaeth ddiwylliannol forol yn debygol yn ystod gweithredu ac y gellir hepgor y mater hwn. |
| 3.10.5 | Tabl 15-4 | Derbynyddion treftadaeth ddiwylliannol forol | Mae'r Arolygiaeth yn cytuno na ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau posibl ar archaeoleg forol gladdedig yn ystod datgomisiynu, ac felly gellir hepgor y mater hwn.<br>Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.12, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.10.6 | Dd/B | Methodoleg gwaith maes archaeolegol | Dylai'r Ymgeisydd geisio cytundeb ar fethodoleg â chyrff ymgynghori perthnasol gan gynnwys Cadw a Chyngor Sir y Fflint. Mae Cadw wedi amlygu, fel rhan o'u sylwadau, y bydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cael ei deddfu yn y dyfodol agos, gan |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | ddiweddaru nifer o ganllawiau a dogfennau polisi. Dylai methodoleg yr EIA fod yn seiliedig ar y fethodoleg ddiweddaraf. |

## 3.11 Materion economaidd-gymdeithasol, hamdden a thwristiaeth

(Adran 16 yr Adroddiad Cwmpasu 16)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.11.1 | Tabl 16-8 | Tarfu parhaol ar draffig ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a strategol – y cyfnod gweithredu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o darfu parhaol ar draffig ar y rhwydweithiau ffyrdd lleol a strategol yn ystod y cyfnod gweithredu.<br><br>Gan nodi'r sylw a wnaed mewn perthynas â chwmpas yr asesiad agwedd traffig a thrafnidiaeth yn Rhif 3.3.1, mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod tarfu ar draffig yn ystod gweithredu yn annhebygol o arwain at effaith arwyddocaol; fodd bynnag, dylai'r Ymgeisydd ystyried unrhyw LSE posibl o brosiectau cronnol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Anogir yr Ymgeisydd i drafod hyn a cheisio cytundeb â chyrff ymgynghori perthnasol. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.11.2 | Tabl 16-8 | Cwmpas asesu – twristiaeth a chyfleusterau cymunedol – pob cam | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi effeithiau posibl ar atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau cymunedol ond nid yw'n esbonio'n benodol sut y bwriedir ystyried y rhain fel rhan o'r asesiad economaidd-gymdeithasol. Dylai'r ES nodi methodoleg glir a dylid asesu effeithiau ar atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau cymunedol yn yr ES lle ystyrir bod effeithiau arwyddocaol yn debygol. |
| 3.11.3 | Tabl 16-8 | Cwmpas asesu – ProW – y cyfnodau adeiladu a datgomisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi effeithiau dros dro a pharhaol posibl ar PRoW yn ystod y cyfnodau adeiladu a datgomisiynu. Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio sut y bydd effeithiau ar PRoW yn cael eu hystyried fel rhan o fethodoleg yr asesiad economaidd- |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | gymdeithasol. Dylid asesu effeithiau ar PRoW yn yr ES lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol a dylid manylu ar fesurau lliniaru. |
| 3.11.4 | Dd/B | Troseddau a diogelwch – pob cam | Ni chyfeirir at droseddau a diogelwch yn yr Adroddiad Cwmpasu. Dylai'r ES nodi a yw nodweddion y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar droseddau a diogelwch, a rhoi cyfiawnhad os cynigir hepgor y mater hwn. Dylai'r ES esbonio sut y sicrheir unrhyw fesurau diogelwch gofynnol. |

## 3.12 Y newid yn yr hinsawdd

(Adran 17 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.12.1 | dd/b | dd/b | Ni chynigiwyd hepgor unrhyw faterion o'r asesiad. |

## 3.13 Iechyd dynol

(Adran 18 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.13.1 | Dd/B | Dd/B | Ni chynigiwyd hepgor unrhyw faterion o'r asesiad. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.13.2 | Dd/B | Cwmpas asesu – cyflenwad tai | Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn ystyried effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar y cyflenwad tai. Dylai'r ES gynnwys asesiad o anghenion tai'r gweithlu a dylid disgrifio unrhyw LSE ar y cyflenwad tai lleol. |
| 3.13.3 | Dd/B | Cwmpas asesu – poblogaethau agored i niwed/ derbynyddion sensitif | Mae'r Arolygiaeth yn cynghori, er bod dull cychwynnol o nodi derbynyddion sensitif wedi'i ddarparu, y gallai effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar iechyd a lles ac anghydraddoldebau iechyd gael effaith benodol ar boblogaethau agored i niwed neu sensitif, gan gynnwys y rhai a ddaw o fewn y rhestr o nodweddion gwarchodedig. Felly, os ydynt yn bresennol, dylid cynnwys y derbynyddion hyn yn y cwmpas asesu. |

## 3.14 Damweiniau mawr a thrychinebau

(Adran 19 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.14.1 | Tabl 19-7 | Peryglon y cyfnod adeiladu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o'r peryglon canlynol ar gyfer y cyfnod adeiladu:<br>▪ Peryglon diwydiannol eraill<br>▪ Peryglon meteorolegol<br>▪ Peryglon hydrolegol<br>▪ Peryglon geoffisegol<br>▪ Peryglon naturiol eraill<br>▪ Peryglon cymdeithasol<br>Cynigir y dylid hepgor y materion hyn oherwydd bod y tebygolrwydd o ddamwain fawr neu drychineb yn isel o ystyried hyd cymharol fyr y cyfnod adeiladu a bod y rhestr gemegol yn fach.<br>Ar sail y wybodaeth yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw risgiau i'r Datblygiad Arfaethedig neu sy'n deillio ohono oherwydd y materion hyn yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Gellir hepgor y materion hyn o'r asesiad. |
| 3.14.2 | Tabl 19-7 | Peryglon y cyfnod comisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o'r peryglon canlynol ar gyfer y cyfnod comisiynu:<br>▪ Peryglon diwydiannol eraill<br>▪ Peryglon meteorolegol<br>▪ Peryglon hydrolegol |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | ▪ Peryglon geoffisegol<br>▪ Peryglon naturiol eraill<br>▪ Peryglon cymdeithasol<br>Cynigir y dylid hepgor y materion hyn oherwydd bod y tebygolrwydd o ddamwain fawr neu drychineb yn isel o ystyried hyd cymharol fyr y cyfnod comisiynu.<br>Ar sail y wybodaeth yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae'r Arolygiaeth yn fodlon nad yw risgiau i'r Datblygiad Arfaethedig neu sy'n deillio ohono oherwydd y materion hyn yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Gellir hepgor y materion hyn o'r asesiad. |
| 3.14.3 | Tabl 19-7 | Peryglon y cyfnod datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.11, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

## 3.15 Deunyddiau a gwastraff

(Adran 20 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.15.1 | Paragraff 20.7.2 a Thabl 20-14 | Newidiadau i safle mwynau neu wastraff a neilltuwyd/ a ddiogelir – adeiladu, gweithredu a datgomisiynu | Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi unrhyw safleoedd mwynau neu wastraff a neilltuwyd/ a ddiogelir sy'n bresennol o fewn ffin y safle, felly mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn. |
| 3.15.2 | Paragraff 20.7.2 a Thabl 20-14 | Newidiadau i Ardaloedd Diogelu Mwynau (MSAs) – adeiladu, gweithredu a datgomisiynu | Mae'r coridor cysylltiad $CO_2$ arfaethedig wedi'i leoli o fewn MSA. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi na chynigir asesu effeithiau ar MSAs yn yr ES gan y byddent yn cael eu hystyried ar wahân fel ystyriaeth gynllunio. Dywedir bod hyn yn unol â Chanllawiau IEMA. Ar sail y Datblygiad Arfaethedig a gan nodi y byddai gwahanu a/ neu sterileiddio posibl yr adnodd yn cael ei asesu fel rhan o'r bennod Daeareg a Chyflwr y Tir yn yr ES, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn. |
| 3.15.3 | Paragraff 20.7.2 a Thabl 20-14 | Gwastraff yn deillio o echdynnu, prosesu a gweithgynhyrchu cydrannau a chynhyrchion adeiladu – gweithredu a datgomisiynu | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y byddai'r cynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn cael eu datblygu mewn amgylchedd gweithgynhyrchu gyda'i gynlluniau rheoli gwastraff, ei gyfleusterau, a'i gadwyn gyflenwi ei hun, ac fel y cyfryw, maent y tu hwnt i gwmpas daearyddol yr ardal astudio. Ar y sail hon, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn. |
| 3.15.4 | Paragraff 20.7.2 a Thabl 20-14 | Effeithiau amgylcheddol eraill sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff i'r Datblygiad Arfaethedig neu oddi yno – gweithredu a datgomisiynu | Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol eraill sy'n gysylltiedig â rheoli deunyddiau a gwastraff i'r Datblygiad Arfaethedig neu oddi yno ym mhenodau agwedd amgylcheddol perthnasol eraill yr ES. Ar y sail hon, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn. Fodd bynnag, dylid croesgyfeirio |

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | rhwng penodau agwedd, lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau asesiad cynhwysfawr. |
| 3.15.5 | Paragraff 20.7.2 a Thabl 20-14 | Newidiadau yn argaeledd deunyddiau a chapasiti tirlenwi – gweithredu a datgomisiynu | Nid yw'r Ymgeisydd yn ystyried bod y rhagolygon ynghylch argaeledd deunyddiau a chapasiti tirlenwi yn adlewyrchiad cywir ac mae'n datgan y gallai fod yn annibynadwy, gan nodi'r cyfnodau amser dan sylw. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno â'r ymagwedd hon, ac ar y sail hon, mae'n fodlon hepgor y mater hwn. Fodd bynnag, bydd angen ystyriaeth o bryd i'w gilydd yn briodol ynghylch argaeledd deunyddiau a chapasiti tirlenwi dros rychwant oes y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys datgomisiynu. Disgwylir y gwneir cyfeiriad at hyn yn y DEMP, y cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), a'r cynllun rheoli deunyddiau (MMP). |

## 3.16 Effeithiau cronnol a chyfunol

(Adran 21 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.16.1 | Paragraff 21.1.3 | Datgomisiynu | Mae'r Arolygiaeth yn cyfeirio'r Ymgeisydd at sylwadau yn Rhif 2.1.11, y dylid rhoi sylw iddynt yn yr ES yn gysylltiedig â datgomisiynu, ac felly nid yw'n cytuno i hepgor y mater hwn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. |

| Rhif | Cyf | Disgrifiad | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.16.2 | Paragraff 21.2.2 | Ardal Astudio | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi mai 15km yw uchafswm maint yr ardal astudio. Mae'r Arolygiaeth o'r farn y gallai fod angen diwygio hyn er mwyn sicrhau bod yr holl ardaloedd astudio mewn penodau agwedd amgylcheddol eraill yn cael eu hystyried, gan y gallai rhai o'r ardaloedd astudio hyn fod yn fwy na 15km. |
| 3.16.3 | Tabl 21-1 | Porthladd Mostyn | Nodir nad yw Porthladd Mostyn wedi'i gynnwys yn y rhestr o brosiectau cronnol a nodir yn Nhabl 21-1 yr Adroddiad Cwmpasu. Nodir y gallai hyn fod o ganlyniad i gymhwyso pellter sgrinio enwol. Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod y pellter sgrinio uchaf yn cael ei ddefnyddio a'i gyfiawnhau fel un sy'n berthnasol i bob asesiad a gynhelir fel rhan o'r EIA. |
| 3.16.4 | Atodiad D Tabl 1 | Safle Melin Bapur Shotton | Nodir nad yw datblygiadau a gymeradwywyd ac a gynigiwyd yn ddiweddar ar safle Melin Bapur Shotton (llai na 1km o safle cais y Datblygiad Arfaethedig) wedi'u cynnwys yn Atodiad D, Tabl 1. Dylid cynnwys y datblygiadau hyn yn yr ES a dylid ystyried a ddylid eu cynnwys yn yr asesiad o effeithiau cronnol. |

## 3.17 Agweddau i'w hepgor

(Adran 22 yr Adroddiad Cwmpasu)

| Rhif | Cyf | Agweddau y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| 3.17.1 | Tabl 22.1 | Morgludiant a mordwyaeth | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon, wrth gadw at ddulliau arferion gorau a gweithdrefnau sefydledig sy'n ymwneud â defnydd Afon Dyfrdwy, bod y Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol yn ymwneud â morgludiant a mordwyaeth, ac felly ystyrir bod y materion a restrir ym mharagraff 22.1.11 yn briodol i'w hepgor. Fodd bynnag, dymuna'r Arolygiaeth weld cytundeb i'r dull hwn yn yr ES gan y cyrff ymgynghori perthnasol sy'n ymwneud â gweithdrefnau rheoli defnydd a diogelwch Afon Dyfrdwy. |
| 3.17.2 | Tabl 22.1 | Pysgodfeydd masnachol | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon, o ganlyniad i leoliad y Datblygiad Arfaethedig ac yn arbennig yr argae coffr o ran y gweithgareddau pysgota, bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol. Nodir y potensial ar gyfer carthu cocos, ond oherwydd graddfa'r gweithgarwch, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol. Felly, mae'r Arolygiaeth o'r farn y gellir hepgor y materion a restrir ym mharagraff 22.2.9 yr ES. |
| 3.17.3 | Tabl 22.1 | Effeithiau trawsffiniol | Mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn; gweler y sylwadau yn Rhif 2.2.5. |
| 3.17.4 | Tabl 22.1 | Hedfanaeth | Mae'r Arolygiaeth yn nodi'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, arferion safonol o ran hysbysu a fydd yn cael eu dilyn, ac ymatebion gan gyrff ymgynghori perthnasol, ac mae'n fodlon i'r mater hwn gael ei hepgor. |
| 3.17.5 | Tabl 22.1 | Ymyriant electronig a meysydd electromagnetig (EMF) | Gan nodi bod materion sy'n ymwneud ag iechyd o ran EMF yn cael eu cynnwys yn yr asesiad, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor ymyriant |

| Rhif | Cyf | Agweddau y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor | Sylwadau'r Arolygiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | electronig ac EMF o'r asesiad fel agwedd annibynnol, cyn belled â bod eu hystyriaeth fel rhan o agweddau eraill yn cael ei dogfennu, lle bo hynny'n berthnasol. |

# ATODIAD 1: CYRFF YMGYNGHORI YR YMGYNGHORWYD Â NHW'N FFURFIOL

### TABL A1: CYRFF YMGYNGHORI RHAGNODEDIG[1]

| DISGRIFIAD ATODLEN 1 | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Gweinidogion Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Yr awdurdod tân ac achub perthnasol | Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Y comisiynydd heddlu a throseddu perthnasol | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Gaer |
| | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Y cyngor/ cynghorau plwyf perthnasol neu, lle mae'r cais yn ymwneud â thir yng Nghymru neu'r Alban, y cyngor cymuned perthnasol | Cyngor Tref Neston |
| | Cyngor Plwyf Puddington |
| | Cyngor Cymuned Helygain |
| | Cyngor Tref y Fflint |
| | Cyngor Cymuned Llaneurgain |
| | Cyngor Cymuned Sealand |
| | Cyngor Tref Cei Connah |
| | Cyngor Cymuned Bagillt |
| | Cyngor Cymuned Penarlâg |
| | Cyngor Tref Shotton |
| | Cyngor Cymuned Neuadd Llaneurgain |

---

[1] Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (y 'Rheoliadau APFP')

| DISGRIFIAD ATODLEN 1 | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| Y Corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau – Gogledd-orllewin Lloegr |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yr Awdurdod Hedfan Sifil | Yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| Yr Awdurdod Priffyrdd Perthnasol | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyngor Teithwyr | Ffocws ar Drafnidiaeth |
| Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl | Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl |
| Yr Awdurdod Glo | Yr Awdurdod Glo |
| Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd | Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd |
| Gweithredwr Cymeradwy | Network Rail Infrastructure Ltd |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Ofgem |
| Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | Ofwat |
| Yr awdurdod rheoleiddio gwastraff perthnasol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Trinity House | Trinity House |
| Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig, sef asiantaeth weithredol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig |
| Y fforwm Cymru Gydnerth lleol perthnasol | Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd |
| Comisiynwyr Ystad y Goron | Ystad y Goron |

| DISGRIFIAD ATODLEN 1 | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Y Corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y bwrdd iechyd lleol perthnasol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | Tîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (yr ONR) | Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (yr ONR) |

**TABL A2: YMGYMERWYR STATUDOL PERTHNASOL[2]**

| YMGYMERWR STATUDOL | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Yr Ymddiriedolaeth GIG berthnasol | Tîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Y bwrdd iechyd lleol perthnasol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Rheilffyrdd | Network Rail Infrastructure Ltd |
| | Ystad Rheilffyrdd Hanesyddol National Highways |
| Awdurdodau Camlesi neu Fordwyo Mewndirol | Y Gymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol (AINA) |
| Yr awdurdod Dociau a Harbyrau | Gwarchodaeth Dyfrdwy |
| Yr Awdurdod Hedfan Sifil | Yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| Deiliad Trwydded (Pennod 1 Rhan 1 Deddf Trafnidiaeth 2000) | NATS En-Route Safeguarding |

[2] Diffinnir 'Ymgymerwr Statudol' yn y Rheoliadau APFP fel bod â'r un ystyr ag yn Adran 127 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008)

| YMGYMERWR STATUDOL | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol | Grŵp y Post Brenhinol |
| Yr Asiantaeth yr Amgylchedd berthnasol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol | Dŵr Cymru |
| Y trawsgludydd nwy cyhoeddus perthnasol | Cadent Gas Limited |
| | Northern Gas Networks Limited |
| | Scotland Gas Networks Plc |
| | Southern Gas Networks Plc |
| | Wales and West Utilities Ltd |
| | CNG Services Ltd |
| | Energy Assets Pipelines Limited |
| | ES Pipelines Ltd |
| | ESP Connections Ltd |
| | ESP Networks Ltd |
| | ESP Pipelines Ltd |
| | Fulcrum Pipelines Limited |
| | GTC Pipelines Limited |
| | Harlaxton Gas Networks Limited |
| | Independent Pipelines Limited |
| | Indigo Pipelines Limited |
| | Last Mile Gas Ltd |
| | Leep Gas Networks Limited |
| | Mua Gas Limited |
| | Quadrant Pipelines Limited |
| | Squire Energy Limited |

| YMGYMERWR STATUDOL | SEFYDLIAD |
|---|---|
| | National Gas |
| Y cynhyrchydd trydan perthnasol â Phwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) | Uniper UK Limited |
| | Deeside Power (UK) Limited |
| Y dosbarthwr trydan perthnasol â Phwerau CPO | SP Manweb Plc |
| | Aidien Ltd |
| | Eclipse Power Network Limited |
| | Energy Assets Networks Limited |
| | ESP Electricity Limited |
| | Fulcrum Electricity Assets Limited |
| | Harlaxton Energy Networks Limited |
| | Independent Distribution Connection Specialists Ltd |
| | Independent Power Networks Limited |
| | Indigo Power Limited |
| | Last Mile Electricity Ltd |
| | Leep Electricity Networks Limited |
| | Mua Electricity Limited |
| | Optimal Power Networks Limited |
| | The Electricity Network Company Limited |
| | UK Power Distribution Limited |
| | Utility Assets Limited |
| | Vattenfall Networks Limited |
| Y trosglwyddydd trydan perthnasol â Phwerau CPO | National Grid Electricity Transmission Plc |
| | National Grid Electricity System Operation Limited |

| YMGYMERWR STATUDOL | SEFYDLIAD |
|---|---|
| | EirGrid Interconnector Designated Activity Company |

**TABL A3: AWDURDODAU LLEOL ADRAN 43 (AT DDIBENION ADRAN 42(1)(B))[3]**

| AWDURDOD LLEOL[4] |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Cilgwri |
| Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir y Fflint |

**TABL A4: CYRFF YMGYNGHORI NAD YDYNT YN RHAGNODEDIG**

| SEFYDLIAD |
|---|
| Cadw |
| Comisiynydd y Gymraeg |
| Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) |
| Tîm Rheoli Trafnidiaeth<br>Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd ac Adfywio De-ddwyrain Cymru (SewDER) |

[3] Adrannau 43 a 42(B) PA2008

[4] Fel y'i diffinnir yn Adran 43(3) PA2008

# ATODIAD 2: YMATEBWYR I’R YMGYNGHORIAD A CHOPÏAU O’R YMATEBION

| CYRFF YMGYNGHORI A YMATEBODD ERBYN Y TERFYN AMSER STATUDOL: |
|---|
| Cadent Gas |
| Cadw |
| Cyngor Tref y Fflint |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Cymuned Helygain |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| National Gas Transmission |
| NATS Safeguarding |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Network Rail |
| Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Yr Awdurdod Glo |
| Trinity House |
| Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig |